TGAU

TGAU CBAC

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

TGAU CBAC

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (GRADD DWYRADD)

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB



Fersiwn 2b

Addysgu o 2019
I'w ddyfarnu o 2021

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Cysoni termau drwyddi draw yn sgil gwaith pellach ar adnoddau ac yn dilyn trafodaeth â Chanolfan Bedwyr (Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg Prifysgol Bangor)<br><br>Er enghraifft:<br>‘cyfannol’ yn lle ‘holistaidd’<br>‘hunan-hunaniaeth’ yn lle ‘hunaniaeth’ am ‘self-identity’<br>Y defnydd o ‘cefnogaeth’ drwyddi draw i olygu ‘support’<br>Cysoni’r defnydd o ‘afiechyd, clefyd a salwch’ | Amrywiol |
| 2b | Newid ‘sicrhau nad ydw unrhyw ddeunyddiau’ i ‘sicrhau na fydd unrhyw ddeunyddiau’<br><br>Newid ‘Cod Ymarfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)’ i ‘Cod Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)’ | 29 |

# TGAU CBAC mewn IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## I'w addysgu o 2019
## I'w ddyfarnu o 2021

Mae'r fanyleb hon yn bodloni Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd a gymeradwywyd i'w dyfarnu yng Nghymru o fis Medi 2017.

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | **2** |
| **1.** | **Cyflwyniad** | **5** |
| | 1.1 Nodau ac amcanion | 5 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 6 |
| | 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg | 6 |
| | 1.4 Bagloriaeth Cymru | 7 |
| | 1.5 Persbectif Cymreig | 7 |
| **2.** | **Cynnwys y pwnc** | **8** |
| | 2.1 Uned 1 | 10 |
| | 2.2 Uned 2 | 18 |
| | 2.3 Uned 3 | 27 |
| | 2.4 Uned 4 | 35 |
| **3.** | **Asesu** | **42** |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 42 |
| | 3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad | 43 |
| **4.** | **Gwybodaeth dechnegol** | **49** |
| | 4.1 Cofrestru | 49 |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 51 |
| **Atodiadau** | | |
| | A: Gridiau asesu ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 Asesu Di-arholiad | **52** |
| | B: Tasgau Asesu Di-arholiad ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 | **75** |


© WJEC CBAC Ltd

# TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (Cymru)

## CRYNODEB O'R TREFNIADAU ASESU
## Gradd Unigol

**Uned 1: Twf, datblygiad a llesiant dynol**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
**40% o gymhwyster Gradd Unigol**
**20% o gymhwyster Dwyradd**

**80 marc: 100 GMU**

Asesiad (a gynhelir ar sgrin neu ar bapur) sy'n cynnwys amrediad o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud â thwf, datblygiad a llesiant pobl.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

**Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant**
**Asesiad di-arholiad: tua 25 awr**
**60% o gymhwyster Gradd Unigol**
**30% o gymhwyster Dwyradd**
**120 marc: 150 GMU**

**Tasg 1: Darparu Gwasanaethau (tua 10 awr)**
Mae 40% o'r marciau yn yr uned hon yn cael eu dyrannu i ymchwiliad darparu gwasanaethau a fydd yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn lleol ac yn genedlaethol.

**Tasg 2: Hybu Iechyd (tua 15 awr)**
Mae 60% o'r marciau yn yr uned hon yn cael eu dyrannu i dasg sy'n asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â hybu a chynnal iechyd a llesiant.

© WJEC CBAC Ltd

# CRYNODEB O'R ASESU
# Dwyradd

## Unedau 1 a 2 yn ogystal ag:

**Uned 3: Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
**20% o gymhwyster Dwyradd**
**80 marc: 100 GMU**

Asesiad (a gynhelir ar sgrin neu ar bapur) sy'n cynnwys amrediad o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

**Uned 4: Hybu a chynnal iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol**
**Asesiad di-arholiad: tua 25 awr**
**30% o gymhwyster Dwyradd**
**120 marc: 150 GMU**

**Gweithgaredd i fodloni angen**

Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â gweithgareddau ystyrlon er mwyn bodloni angen penodol grŵp targed sydd wedi'i ddewis, ac sy'n helpu i hybu hunan-hunaniaeth *(self-identity)*, hunanwerth, ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch.

© WJEC CBAC Ltd

Nid oes haenau yn y cymwysterau gradd unigol a dwyradd unedol.

Bydd y ddau gymhwyster ar gael i'w hasesu ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Fe'u dyfernir am y tro cyntaf yn ystod haf 2021.

Mae'r tabl isod yn dangos y llwybrau posibl tuag at gymhwyster TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

| Cymhwyster | Uned 1 o 2020 | Uned 2 o 2021 | Uned 3 o 2021 | Uned 4 o 2021 |
|---|---|---|---|---|
| TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (gradd unigol) | ✓ | ✓ | | |
| TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (dwyradd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Lle mae ymgeiswyr wedi cyfnewid Uned 1 ac Uned 2 am y radd unigol, ni all deilliannau Uned 1 nac Uned 2 wedyn gyfrannu at ddwyradd ddilynol.**

**Rhifau Cymeradwyo Cymwysterau Cymru**
**Gradd Unigol: C00/3685/2**
**Dwyradd: C00/1237/9**

© WJEC CBAC Ltd

# TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Mae TGAU CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i ddysgwyr am ddatblygiad unigolion, a sut i ofalu amdanynt, drwy gydol cylchred bywyd o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach. Mae dysgwyr yn cael y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant dynol. Byddant hefyd yn meithrin dealltwriaeth o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn cydnabod bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain.

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

Cynlluniwyd y fanyleb hon i gynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foesegol a chynaliadwy yng Nghymru, a chreu dysgwyr annibynnol sy'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â chyfleoedd dysgu pellach neu wneud dewisiadau gyrfaol cysylltiedig.

Mae rhannu'r cynnwys yn unedau yn hybu  hyblygrwydd o ran darparu. Mae'n hybu dysgu gweithredol a phersonoli drwy roi cyfleoedd i'r dysgwyr ymchwilio i faterion gofal a phynciau o'u dewis nhw.

Drwy astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd dysgwyr yn gallu:

- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau at faterion cyfoes mewn amrediad o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- ymwneud yn weithredol ag astudio iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant i ddatblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau ymholgar
- gwerthfawrogi amrediad o safbwyntiau ar effeithiau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar gymdeithas ehangach
- ystyried y ffaith y dylai ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant fod yn foesegol a chefnogi system iechyd a gofal gynaliadwy
- datblygu a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gan gynnwys defnyddio a dehongli data
- datblygu ymwybyddiaeth o'r llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

© WJEC CBAC Ltd

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar lefel UG neu Safon Uwch.

Hefyd, mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau Lefel 2 neu Lefel 3 yn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, gan gynnwys:

- *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd*
- *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Craidd.*

Hefyd, gallai dysgwyr â diddordeb mewn addysg bellach astudio:

- *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau*
- *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori,* neu
- *Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.*

Gallai dysgwyr â diddordeb mewn dysgu seiliedig ar waith astudio:

- *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion), neu*
- *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer*

Mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio cydlynus, boddhaus a gwerthchweil i ddysgwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Yn ogystal, bydd dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau hyddysg ynghylch dewis eang o lwybrau gyrfa.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchodedig penodol yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil.

Mae’r fanyleb hon wedi’i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi’u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig pan fydd cyfle naturiol i wneud hynny'n rhan o'r deunydd pwnc ac os byddai ei gynnwys yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u hamgylch fel dinasyddion Cymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru (2006) yn diffinio'r meysydd o gyfrifoldeb polisi sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Yn eu plith mae *iechyd a gwasanaethau iechyd*, ac *addysg a hyfforddiant*. Felly, mae'n arbennig o berthnasol i ddysgwyr ystyried agweddau allweddol ar gynnwys y fanyleb hon o bersbectif Cymreig a'r ffordd y mae gwasanaethau yn darparu gofal yng Nghymru. Er enghraifft:

- yn Uned 2, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio'r cyrff rheoleiddio yng Nghymru a deddfwriaeth a fframweithiau cyfredol yng Nghymru
- yn Uned 3, mae'n ofynnol i ddysgwyr ystyried y cyd-destun Cymreig wrth ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r uned hon hefyd yn cynnwys cynnwys penodol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru.

© WJEC CBAC Ltd

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Cafodd cynnwys y fanyleb a gofynion yr asesiad eu llunio i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu lled a dyfnder priodol o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Bydd disgwyl i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â materion cyfredol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Dylent gael eu hannog i wneud cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer er mwyn gallu cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd.

Dylai cynnwys y fanyleb gael ei ystyried yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru yn yr 21ain ganrif. Hynny yw, o ran darparu gofal cyfannol, sut mae darparu'r gofal a'r cymorth hwn, a phroblemau gwneud hynny. Dylai fod ffocws moesegol ac ystyriaeth o gynaliadwyedd gofal a chymorth yng Nghymru.

Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd datblygu gwasanaethau cynaliadwy at y dyfodol, ynghyd â chyfrifoldebau unigolyn am ei lesiant ei hun. Dylent hefyd fod yn gyfarwydd â'r prif agweddau ar ddeddfwriaeth gyfredol sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru, ac yn eu llywio.

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr ystyried iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar lefel leol a chenedlaethol. Ym mhob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, dylai dysgwyr ddeall bod *'cenedlaethol'* yn cyfeirio at Gymru gyfan. O ran gofal iechyd, mae saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, a gall dysgwyr ystyried bod unrhyw un o'r rhain yn *'lleol'*. Fodd bynnag, mae fel arfer yn fwy priodol ystyried bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn *'lleol'* o ran gofal cymdeithasol a gofal plant.

Ym mhob maes testun mae’r wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau perthnasol yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn manylu ar y cynnwys sydd i’w astudio; mae'r golofn ar y dde yn ymhelaethu ar y cynnwys sydd wedi’i restru ar y chwith. Rhoddir trosolwg bras o bob testun er mwyn rhoi'r cynnwys mewn cyd-destun.

Mae Unedau 1 a 2 yn diffinio cynnwys y pwnc ar gyfer y radd unigol. Mae Unedau 1, 2, 3 a 4 yn diffinio'r cynnwys ar gyfer y cymhwyster dwyradd.

Nid yw trefn cyflwyno’r cynnwys yn awgrymu unrhyw hierarchaeth, ac er nad yw’n awgrymu trefn ddysgu ragnodedig, yr argymhelliad yw bod Unedau 1 a 2 yn cael sylw cyn Unedau 3 a 4. Mae hyn yn rhoi’r hyblygrwydd i'r dysgwyr sy'n dilyn y cwrs dwyradd i gofrestru ar gyfer y radd unigol os bydd eu cynlluniau yn newid.

Er bod asesiad pob uned yn canolbwyntio ar y cynnwys sy'n benodol i'r uned honno, gall ymgeiswyr gyfeirio’n berthnasol at gynnwys o unedau eraill. Er enghraifft:
- yn Uned 2, bydd ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd ganddynt yn Uned 1 wrth gwblhau eu tasgau Asesiad Di-arholiad
- yn Uned 4, bydd ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd ganddynt yn unrhyw un o'r tair uned arall wrth gwblhau eu tasg Asesiad Di-arholiad.

Felly, bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i ffurfio cysylltiadau rhwng elfennau sy'n deillio o'r cwrs astudio llawn ac i ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ganddynt amdanyn nhw.

© WJEC CBAC Ltd

**Crynodeb o Gynnwys y Pwnc**

| **2.1** | **Uned 1** |
|---|---|
| | **Twf, datblygiad a llesiant dynol** |
| **2.1.1** | Datblygiad dynol drwy gydol cylchred bywyd |
| **2.1.2** | Iechyd corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol |
| **2.1.3** | Pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol i ddatblygiad a llesiant |
| **2.1.4** | Atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn hybu a chynnal twf, datblygiad a llesiant ar gyfer amrediad o amgylchiadau a chyflyrau |

| **2.2** | **Uned 2** |
|---|---|
| | **Hybu a chynnal iechyd a llesiant** |
| **2.2.1** | Iechyd a gofal cymdeithasol, a darpariaeth gofal plant yng Nghymru i hybu a chynnal iechyd a llesiant |
| **2.2.2** | Iechyd y cyhoedd a hybu iechyd drwy gydol cylchred bywyd |
| **2.2.3** | Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol cylchred bywyd |

| **2.3** | **Uned 3** |
|---|---|
| | **Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif** |
| **2.3.1** | Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru |
| **2.3.2** | Diogelu |
| **2.3.3** | Materion cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant |
| **2.3.4** | Cefnogi system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yn yr 21ain ganrif |

| **2.4** | **Uned 4** |
|---|---|
| | **Hybu a chynnal iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol** |
| **2.4.1** | Sut mae iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (GIG Cymru) wedi gwella iechyd a llesiant y genedl |
| **2.4.2** | Sut y gall mathau o ofal helpu unigolion i sicrhau canlyniadau cadarnhaol |
| **2.4.3** | Cefnogi hunan-hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd a gwydnwch drwy gydol cylchred bywyd |
| **2.4.4** | Gweithgareddau ystyrlon i gynnal a hybu iechyd, datblygiad a llesiant |

© WJEC CBAC Ltd

## 2.1 Uned 1

**Twf, datblygiad a llesiant dynol**

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
40% o gymhwyster gradd unigol
20% o gymhwyster dwyradd
80 marc

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bedwar maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 11 i 17.

**Meysydd cynnwys:**

2.1.1 Datblygiad dynol drwy gydol cylchred bywyd
2.1.2 Iechyd corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol
2.1.3 Pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol i ddatblygiad a llesiant
2.1.4 Atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant ar gyfer amrediad o amgylchiadau a chyflyrau

**Trosolwg o'r uned**

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad dynol drwy gydol cylchred bywyd a'r ffyrdd y gellir effeithio ar hyn; sut gall unigolion gymryd rheolaeth o'u gofal a'u hiechyd a'u llesiant; a sut gall ymyrryd yn gynnar a chymryd camau ataliol gefnogi twf a datblygiad unigolion.

© WJEC CBAC Ltd

| **2.1.1 Datblygiad dynol drwy gydol cylchred bywyd** | |
|---|---|
| Mae'r adran hon yn darparu sylfaen gadarn i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae unigolion yn tyfu ac yn datblygu drwy gydol cylchred bywyd, a gallu dadansoddi'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt. | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** |
| **(a) Camau bywyd drwy gydol cylchred bywyd** | Ymwybyddiaeth o'r prif gamau mewn bywyd:<br>Babandod 0-2 oed<br>Plentyndod 3-12 oed<br>Llencyndod 13-19 oed<br>Oedolaeth 20-64 oed<br>Oedolaeth ddiweddarach 65+ oed |
| **(b) Twf a Datblygiad** | Dylai dysgwyr wybod bod twf yn cyfeirio at gynnydd mewn maint corfforol (màs a thaldra) a bod datblygiad yn ymwneud ag ymddangosiad a chynnydd yn soffistigeiddrwydd sgiliau, galluoedd ac emosiynau. |
| **(c) Cerrig milltir disgwyliedig twf a datblygiad** | Dylai dysgwyr allu disgrifio cerrig milltir disgwyliedig twf a datblygiad corfforol a'r agweddau deallusol, cymdeithasol ac emosiynol allweddol ar gerrig milltir datblygiad sy'n digwydd yn nodweddiadol yn ystod pob un o brif gamau bywyd. I gynnwys dealltwriaeth o'r defnydd o siartiau canraddol a'r Cofnod o Sgiliau Tyfu i gofnodi patrymau datblygiad 0-19 oed.<br>• Datblygiad corfforol – twf y corff, datblygu sgiliau echddygol bras a manwl, cryfder, y glasoed, menopos, nodweddion oedran a heneiddio<br>• Datblygiad deallusol – sgiliau iaith, galluedd meddyliol a datblygiad y cof, sut mae plant yn dysgu, gan gynnwys dysgu drwy chwarae, datrys problemau, datblygiad moesol<br>• Datblygiad emosiynol – bondio, ymlyniad, hunan-barch, hunanhyder, datblygiad teimladau, ymlyniadau ac annibyniaeth<br>• Datblygiad cymdeithasol – sgiliau cymdeithasol/cymdeithasoli, camau chwarae cymdeithasol, rhyngweithio a rolau. |
| **(ch) Ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant** | Dylai dysgwyr ddeall sut gall y ffactorau hyn gydberthyn a sut gallant effeithio ar lesiant unigolyn, mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol drwy gydol cylchred bywyd.<br><br>Ffactorau corfforol, gan gynnwys:<br>• etifeddiad genetig (e.e. rhagdueddiad i gyflyrau meddygol)<br>• deiet, maeth a hydradu, gan gynnwys bwydo o’r fron, bwydo o’r botel, diddyfnu<br>• faint o weithgarwch corfforol sy’n cael ei wneud a’i fath (e.e. manteision ymarfer corff o gymharu â risgiau gwneud ychydig o ymarfer corff neu ddim o gwbl)<br>• cyfle i chwarae<br>• profiad o afiechyd neu glefyd<br>• anabledd |

© WJEC CBAC Ltd

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(ch) Ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant (parhad)** | Ffactorau cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys:<br>• rhywedd<br>• teulu (ei fath, ei faint a'i ffordd o fyw)<br>• perthnasoedd – gan gynnwys perthnasoedd teuluol (â rhieni a brodyr a chwiorydd, ac fel rhieni), perthnasoedd â ffrindiau, perthnasoedd personol agos a pherthnasoedd rhywiol, perthnasoedd gwaith (gan gynnwys athro/myfyriwr, cyflogwr/gweithiwr, cyfoedion, cydweithwyr).<br>• Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod *(ACE: Adverse Childhood Experiences)* h.y. profiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac sy’n cael eu cofio drwy gydol oedolaeth<br>• cam-drin (emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol ac esgeulustod) – i gynnwys ymddygiad sy'n rheoli/gorfodi o fewn perthnasoedd teuluol a/neu berthnasoedd personol agos a rhywiol<br>• profiadau addysgol<br>• cyflogaeth (e.e. manteision bod mewn cyflogaeth o gymharu ag effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â diweithdra)<br>• amrywiaeth ddiwylliannol a hiliol (e.e. manteision a heriau byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol)<br><br>Ffactorau economaidd, gan gynnwys:<br>• incwm – cyflog, budd-daliadau, cynilion, biliau, dyledion, tlodi<br>• eiddo materol – dymuniadau ac anghenion.<br><br>Ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys:<br>• cyflwr tai<br>• argaeledd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau gofal plant<br>• llygredd aer |

© WJEC CBAC Ltd

## 2.1.2 Iechyd corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng iechyd corfforol a meddyliol a'r gefnogaeth sydd ar gael.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(a) Y gyd-ddibyniaeth rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl da** | Gall gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff arwain at fanteision iechyd uniongyrchol a thymor hir a gwella ansawdd bywyd unigolyn. Mae bod yn weithgar yn gorfforol yn dda i'r corff, ond mae cysylltiad agos rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl – felly gall gweithgarwch corfforol fod o fantais i iechyd meddwl a llesiant hefyd.<br><br>**Manteision iechyd corfforol**<br>Yn ogystal â gwella ffitrwydd corfforol cyffredinol, gall bod yn fwy gweithgar gael y manteision corfforol canlynol:<br>• llai o risg o rai cyflyrau, e.e. strôc, clefyd y galon a diabetes math 2<br>• llai o risg o broblemau iechyd corfforol wrth i'n cyrff addasu i straen gan gynnwys clefyd y galon, pwysedd gwaed uchel, ymateb imiwn is, yn ogystal ag iselder a gorbryder<br>• organau iachach, e.e. calon gryfach a fydd yn helpu i leihau pwysedd gwaed<br>• esgyrn iachach. Bydd ymarferion â phwysau yn cryfhau'r esgyrn ac yn adeiladu'r cyhyrau, a all leihau'r risg o osteoporosis.<br>• pwysau iachach<br>• mwy o egni<br>• gwell cwsg.<br><br>**Manteision iechyd meddwl**<br>• llai o orbryder a gwell hwyliau – drwy ryddhau endorffinau (sydd weithiau'n cael eu galw'n hormonau 'teimlo'n dda') yn ystod ymarfer corff, newidiadau i gemeg yr ymennydd sy'n gallu tawelu gorbryder a chodi hwyliau<br>• teimlo llai o straen<br>• yn fwy digyffro – drwy neilltuo amser i wneud ymarfer corff gellir cael amser i ystyried gwahanol bethau a gwneud i'r meddwl dawelu'n fwy, ac yn gallu meddwl yn glir<br>• mwy o hunan-barch – pan fydd lefelau ffitrwydd yn cynyddu a bod y corff yn gwella gall hyn roi hwb i hunan-barch. Gall y teimlad o gyflawniad o ddysgu sgiliau newydd a chyflawni nodau hefyd helpu unigolion i deimlo'n well am eu hunain a chodi hwyliau. Mae i fwy o hunan-barch effaith amddiffynnol hefyd sy'n cynyddu boddhad mewn bywyd a gall ei gwneud hi'n haws i unigolion ddelio â straen<br>• llai o risg o iselder.<br><br>**Manteision cymdeithasol ac emosiynol**<br>• gwneud ffrindiau a chysylltu â phobl – mae bod yng nghwmni pobl yn dda i iechyd meddwl a rhwydweithiau cymdeithasol<br>• cael hwyl<br>• mae unigolion yn teimlo'n rhan o grŵp, ac felly mae llai o ymyleiddio a mwy o deimlad o gynhwysiant, a stigma a gwahaniaethu'n cael eu herio. |

© WJEC CBAC Ltd

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(b) Adnoddau i gefnogi iechyd cymdeithasol, emosiynol a deallusol** | Rhaid i ddysgwyr wybod am yr adnoddau/prosesau sydd ar gael i hybu iechyd cymdeithasol, emosiynol a deallusol, a'u deall:<br><br>• **Meddylfryd twf –** y gred y gall rhywun ddysgu a gwella o ganlyniad i ddiwylliant cyson o ddisgwyliadau uchel ac adborth o safon. Ymhlith y manteision mae ymdopi'n well â newid, mwy o hunanreoleiddio, dygnwch ac ymddygiad rhag-gymdeithasol. Hefyd, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod manteision o ran iechyd meddwl – cafodd ei ganfod bod pobl â meddylfryd twf yn ymddwyn yn llai ymosodol a bod ganddynt fwy o hunan-barch a llai o symptomau sy'n gysylltiedig ag iselder a gorbryder.<br><br>• **Ymwybyddiaeth ofalgar** – dull gweithredu integreiddiol sy'n seiliedig ar y meddwl a'r corff sy'n helpu unigolion i reoli eu meddyliau a'u teimladau, a'u hiechyd meddwl yn well. Mae'n ymwneud â thalu mwy o sylw i'r foment – i deimladau a meddyliau'r unigolyn a'r byd o'i amgylch.<br><br>• **Gwydnwch** – gallu unigolyn i addasu'n llwyddiannus i dasgau bywyd yn wyneb anfantais gymdeithasol neu amodau anodd iawn eraill, fel problemau o ran y teulu neu berthnasoedd, problemau iechyd, pryderon ynglŷn â'r gweithle neu bryderon ariannol, ymhlith eraill.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl cymhwyso'r adnoddau hyn at bob cam bywyd a'u bod yn cael eu defnyddio'n arbennig mewn ysgolion ac mewn lleoliadau gofal eraill. |

© WJEC CBAC Ltd

| **2.1.3 Pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol i ddatblygiad a llesiant** | |
|---|---|
| Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu gofal, eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, er mwyn cefnogi system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yng Nghymru. | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** |
| **(a) Cyfranogiad gweithredol** | Dylai dysgwyr wybod bod cyfranogiad gweithredol yn ffordd o weithio sy'n ystyried unigolion yn bartneriaid gweithredol yn eu gofal yn hytrach na bod yn dderbynwyr goddefol. Mae cyfranogiad gweithredol yn ystyried hawl pob unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pherthnasoedd bywyd pob dydd mor annibynnol â phosibl. |
| **(b) Manteision cyfranogiad gweithredol i'r unigolyn** | Dylai dysgwyr wybod bod cyfranogiad gweithredol yn rhoi nifer o fanteision, gan gynnwys:<br>• mwy o reolaeth dros benderfyniadau am eu bywydau, gan gynnwys eu gofal a chymorth<br>• mwy o gyfleoedd i<br>  • ddysgu a datblygu sgiliau a gwybodaeth bwysig<br>  • addysg a chyflogaeth<br>  • cyswllt cymdeithasol a pherthnasoedd rhyngbersonol<br>  • cymryd rhan mewn gweithgareddau pob dydd sy'n bwysig iddyn nhw mor annibynnol â phosibl<br>• gwell ymdeimlad o hunan-werth a hyder<br>• bod yn llai agored i niwed a llai o siawns o gael eich cam-drin gan eraill<br>• gwell iechyd corfforol a meddyliol, a gwydnwch.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y broses hon yn gymwys i bob cam bywyd, ac i blant ifanc gallai rhieni/gofalwyr fod yn gyfranogwr gweithredol ar eu rhan. |

© WJEC CBAC Ltd

| **2.1.4 Ymyrryd yn gynnar a chymryd camau ataliol er mwyn hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant ar gyfer amrediad o gyflyrau ac amgylchiadau** | |
|---|---|
| Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y gall gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, i hybu iechyd a llesiant, gyfrannu at system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foesegol a chynaliadwy yng Nghymru. | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** |
| **(a) Ffyrdd o hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant** | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall fod o fantais i lesiant unigolion i dderbyn cefnogaeth gynnar er mwyn atal, neu o leiaf oedi, defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ffurfiol.<br><br>Rhaid i ddysgwyr wybod am ffyrdd o hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant unigolion drwy ymyrryd yn gynnar a chymryd camau ataliol, a'u deall.<br>• rhaglenni sgrinio – y fron, serfigol, y coluddyn, anewrysm aortig abdomenol, mamol, plentyn (e.e. cofnod iechyd personol plentyn (*PCHR*, neu'r 'llyfr coch' fel mae'n cael ei alw)), gan gynnwys clyw babanod newydd-anedig, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, Cymru Well Wales: 1000 Diwrnod Cyntaf.<br>• rhaglenni imiwneiddio drwy'r camau bywyd<br>• gwasanaethau<br>    • meddyg teulu/canolfan iechyd/ysbytai<br>    • gofal cyn-geni/ôl-eni<br>    • clinig iechyd plant<br>    • clinig merched/dynion iach<br>    • clinig cynllunio teulu/clinig iechyd rhywiol<br>    • gwasanaethau symudol, e.e. Rhaglen Sgrinio'r Fron y GIG/Bron Brawf Cymru<br>    • cwnsela<br>• canllawiau llywodraeth a gynlluniwyd i hybu iechyd a llesiant unigolion mewn perthynas â: deiet, clefydau cysylltiad rhywiol, camddefnyddio alcohol a sylweddau, ysmygu, byw'n iach<br>• mentrau'r llywodraeth, gan gynnwys Dechrau'n Deg, y Cynnig Rhagweithiol<br>• cyfranogiad a chefnogaeth y gymuned, e.e. grwpiau chwarae, rhwydweithiau ffrindiau, cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y ganolfan gymunedol, grwpiau ffydd. |
| **(b) Cyflyrau** | Bydd angen i ddysgwyr wybod a deall ar gyfer pa gyflyrau y mae angen gofal a chefnogaeth ychwanegol (fel cyswllt rheolaidd â gwasanaeth iechyd neu ddarparwyr/gweithwyr proffesiynol eraill, archwiliadau rheolaidd, cefnogaeth gan aelodau o'r teulu, y gymuned) er mwyn cynnal iechyd a llesiant; gall y rhain fod yn gyflyrau acíwt neu'n gyflyrau cronig (tymor byr neu dymor hir).<br><br>**Tymor byr –** mathau o afiechyd fel: gwenwyn bwyd, brechau, twymynau, peswch ac annwyd, brech yr ieir, y frech goch<br>**Tymor hir –** cyflyrau fel: gordewdra, diabetes, clefyd y galon, arthritis, dementia, canser.<br><br>Dylai dysgwyr wybod bod modd atal rhai cyflyrau, e.e. gwenwyn bwyd, y frech goch, gordewdra, diabetes math 2, clefyd y galon. |

© WJEC CBAC Ltd

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(c) Amgylchiadau** | Bydd angen i ddysgwyr wybod a deall y gall amgylchiadau unigolion godi o ddigwyddiadau disgwyliedig ac annisgwyl mewn bywyd, gan gynnwys:<br>• genedigaeth, e.e. brawd neu chwaer, dod yn rhiant<br>• dechrau a gadael meithrinfa/ysgol/coleg/prifysgol<br>• dechrau gweithio/newid cyflogaeth/colli gwaith/ diweithdra/ymddeoliad<br>• priodas a phartneriaeth sifil<br>• ysgariad<br>• profedigaeth<br>• afiechyd neu ddamweiniau difrifol<br>• anabledd caffaeledig<br>• symud tŷ/symud i ofal preswyl.<br><br>Gellir rhagweld effeithiau tebygol digwyddiadau bywyd i raddau helaeth a gall fod effeithiau cadarnhaol/negyddol. Gall yr effeithiau fod yn rhai tymor byr a/neu dymor hir.<br><br>Ymhlith yr effeithiau mae effeithiau:<br>• corfforol, fel tarfu ar batrymau bwyta neu gysgu oherwydd afiechyd neu straen<br>• deallusol, fel caffael sgiliau neu anhawster canolbwyntio<br>• emosiynol, fel bod yn hapusach ar ôl dod yn rhiant, cael swydd, priodi, gadael perthynas anhapus; gorbryder, galar neu iselder, o ganlyniad i brofedigaeth neu ddiweithdra<br>• cymdeithasol, fel newid mewn cyfleoedd a rhygweithio cymdeithasol, o ganlyniad i: dechrau'r feithrinfa neu'r ysgol gynradd, dechrau mewn addysg uwch neu swydd newydd, dod yn rhiant, gwahanu neu ysgaru, encilio neu ynysu eich hun ar ôl gwahanu, ysgaru, diweithdra neu gael profedigaeth. |

© WJEC CBAC Ltd

## 2.2 Uned 2

**Hybu a chynnal iechyd a llesiant**

Asesiad di-arholiad: tua 25 awr
60% o gymhwyster gradd unigol
30% o gymhwyster dwyradd
120 marc

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cynnwys dwy dasg a osodir gan CBAC, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Gall ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil ar gyfer y ddwy dasg heb oruchwyliaeth uniongyrchol, cyn llunio eu hadroddiadau. Dylai ymgeiswyr dreulio tua 25 awr i gyd yn llunio eu hadroddiadau ar gyfer yr asesiad di-arholiad, gan gwblhau'r gwaith o dan oruchwyliaeth yn y ganolfan.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 20-24.

**Meysydd cynnwys:**

2.2.1 Iechyd a gofal cymdeithasol, a darpariaeth gofal plant yng Nghymru i hybu a chefnogi iechyd a llesiant
2.2.2 Iechyd y cyhoedd a hybu iechyd drwy gydol cylchred bywyd
2.2.3 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol cylchred bywyd

**Trosolwg o'r uned**

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrediad o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant sy'n cael eu darparu yng Nghymru a sut mae'r gwasanaethau hyn yn hybu ac yn cynnal iechyd a llesiant y genedl.

© WJEC CBAC Ltd

**Uned 2 Asesiad Di-arholiad**

**Tasg 1: Darparu Gwasanaethau**

**40% o Uned 2**

Bydd yr asesiad hwn yn gofyn i bob dysgwr lunio adroddiad sy'n dangos tystiolaeth o'r canlynol:

(a) ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion un o'r grwpiau targed canlynol:
- plant
- pobl ifanc
- oedolion

(b) ymchwilio i rolau dau weithiwr proffesiynol allweddol

(c) dadansoddi'r dasg.

Heblaw am eu gwaith ymchwilio, dylai ymgeiswyr gwblhau'r asesiad di-arholiad hwn o dan oruchwyliaeth mewn tua 10 awr.

**Tasg 2: Hybu Iechyd**

**60% o Uned 2**

Bydd yr asesiad hwn yn gofyn i bob dysgwr lunio adroddiad sy'n dangos tystiolaeth o'r canlynol ac yn cynnwys tystiolaeth weledol i gefnogi'r gweithgaredd:

(a) dewis pwnc a grŵp targed

(b) ymchwilio i'r pwnc a ddewiswyd gan ddefnyddio amrediad o adnoddau

(c) asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes

(ch) cynllunio a chreu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd

(d) dadansoddi a gwerthuso'r dasg.

Heblaw am eu gwaith ymchwilio, dylai ymgeiswyr gwblhau'r asesiad di-arholiad hwn o dan oruchwyliaeth mewn tua 15 awr.

© WJEC CBAC Ltd

| **2.2.1 Iechyd a gofal cymdeithasol, a darpariaeth gofal plant yng Nghymru i hybu a chefnogi iechyd a llesiant** | |
|---|---|
| Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r prif wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant sy'n cael eu darparu yng Nghymru, sut maent yn cydweithio i fodloni anghenion unigol, a sut maent yn cael eu rheoleiddio er mwyn darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foesegol a chynaliadwy yng Nghymru.<br><br>Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin gwybodaeth o'r llwybrau gyrfa sy'n cael eu darparu yn y sectorau gwahanol. | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** |
| **(a) Fframweithiau deddfwriaethol cenedlaethol sy'n hybu a chefnogi iechyd a llesiant** | Rhaid i ddysgwyr wybod a deall bod pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cael eu llywio a'u rheoleiddio gan y cyrff rheoleiddio cenedlaethol canlynol:<br>• Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<br>• Estyn.<br><br>Rhaid i ddysgwyr wybod bod deddfwriaeth yn bodoli i hybu a chefnogi iechyd a llesiant. Dylai dysgwyr ddeall prif nodau deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys:<br>• Deddf GIG a Gofal Cymunedol 1990, 2012<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017<br>• Y Ddeddf Plant (1989 a 2004)<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Mentrau/strategaethau/fframweithiau cyfredol, e.e. Cronfa Triniaethau Newydd, Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair, Plant Iach Cymru, Dechrau'n Deg, Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, Cymru Iachach, presgripsiynau am ddim, Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Bobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth, Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir<br>• Deddf Safonau Gofal 2000. |
| **(b) Darparu gwasanaethau** | Dylai dysgwyr ddeall bod gwahanol sectorau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Dylent allu adnabod enghreifftiau lleol a chenedlaethol o ddarparwyr gwasanaethau yn y gwahanol sectorau:<br><br>• sector gofal statudol: gwasanaethau yw'r rhain y mae Llywodraeth Cymru'n talu amdanyn nhw. Maent yn cynnwys yr holl wasanaethau GIG, byrddau iechyd, ysbytai, canolfannau iechyd, a gwasanaethau awdurdodau lleol – gofal cymdeithasol plant, gofal cymdeithasol oedolion, addysg (ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd)<br>• sector gofal preifat: gwasanaethau yw'r rhain sy'n cael eu rhedeg fel busnesau i wneud elw. Gan unigolion a/neu eu polisïau yswiriant y mae'r rhain yn derbyn cyllid. Yn eu plith mae cwmnïau preifat sy'n gallu darparu: gofal ddydd i blant – crèche/meithrinfa ddydd; gofal iechyd – BUPA, deintyddion; gofal cymdeithasol – cartrefi preswyl/nyrsio, cynorthwywyr personol, ac ymarferwyr hunangyflogedig – gwarchodwyr plant, cynorthwywyr personol, nyrsys preifat |

© WJEC CBAC Ltd

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(b) Darparu gwasanaethau (parhad)** | • y sector gofal gwirfoddol: mudiadau nad ydyn nhw'n gwneud elw, sy'n elusen gofrestredig yn aml, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn – er enghraifft, Achub y Plant, Gweithredu dros Blant, Mind, Marie Curie, Scope, Y Gymdeithas Strôc: grwpiau cefnogi lleol yn defnyddio gwirfoddolwyr – grwpiau chwarae, grwpiau cwnsela a phrofedigaeth a sefydliadau nad ydyn nhw'n gwneud elw gyda gweithwyr cyflogedig – Barnardo's, Y Gymdeithas Genedlaethol Er Atal Creulondeb i Blant *(NSPCC)*, Childline, Macmillan, hosbisau<br>• gofal anffurfiol: pobl sydd am helpu eraill sy'n cyflawni'r gofal hwn, yn ddi-dâl fel arfer. Teulu, ffrindiau, cymdogion, grwpiau eglwys lleol yw'r rhain sy'n gwneud pethau fel: gwarchod babanod, siopa, glanhau, casglu presgripsiynau, darparu cludiant i fynd i apwyntiadau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod beth yw'r prif fathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu i unigolion drwy gydol cylchred bywyd.<br><br>Dylent wybod:<br>• y sectorau gwahanol y mae'r gwasanaethau'n perthyn iddyn nhw<br>• y gall rhai gwasanaethau fod ar gael gan fwy nag un darparwr, h.y. gofal a chymorth yn y cartref, gofal plant, ffisiotherapi er enghraifft sy'n statudol, preifat a/neu wirfoddol<br>• lle mae'n bosibl cael mynediad at wasanaethau, er enghraifft, gall podiatreg fod ar gael yn y ganolfan iechyd neu'r ysbyty<br>• ei bod yn bosibl defnyddio rhai gwasanaethau ym mhob cam bywyd, er enghraifft, canolfannau iechyd, ysbytai, optegwyr<br>• bod rhai gwasanaethau ar gael i grwpiau targed penodol, er enghraifft, Dechrau'n Deg, gwasanaethau Cyfnod Sylfaen, gofal cyn-geni, Mind Cymru, Age UK<br><br>Yn cynnwys:<br><br>Gwasanaethau **gofal iechyd**, er enghraifft:<br>• gofal sylfaenol: gwasanaethau meddyg teulu, optegwyr, fferyllfeydd, deintyddion<br>• gofal eilaidd: ysbytai, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi.<br><br>Gwasanaethau **gofal cymdeithasol**, er enghraifft: gofal maeth, gofal preswyl, gwasanaethau cefnogi i blant a theuluoedd, gwasanaethau troseddau ieuenctid, gwaith ieuenctid, grwpiau cefnogi, gofal a chefnogaeth yn y cartref (cynorthwywyr gofal yn y cartref a chynorthwywyr personol), llochesau i bobl ddigartref, canolfannau dydd, gwasanaethau cwnsela, canolfannau cyngor ar bopeth, byw gwarchodol/â chefnogaeth, clybiau cinio, sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Gwasanaethau **gofal plant**, er enghraifft: gwarchodwyr plant, grwpiau chwarae, meithrinfeydd dydd, crèche, gofal cyn/ar ôl ysgol. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant rhad ac am ddim i rieni plant 3 a 4 mlwydd oed sy'n gweithio yn cael ei gynnig drwy Trafod Gofal Plant yng Nghymru. |

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(b) Darparu gwasanaethau (parhad)</td><td>Dylai dysgwyr wybod bod:
<ul>
<li>rhai gwasanaethau ar gael 'am ddim adeg eu darparu': y rhan fwyaf o driniaethau meddyg teulu ac ysbyty GIG, rhai ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, trefniadau cyswllt i blant sy'n derbyn gofal</li>
<li>mae'n rhaid talu am rai gwasanaethau: gofal preifat; rhai triniaethau GIG – profion llygaid, sbectolau a lensiau cyffwrdd, triniaeth ddeintyddol; llawdriniaeth gosmetig (heblaw bod rheswm meddygol am y driniaeth hon); gofal preswyl; gwarchodwyr plant</li>
<li>mae rhai unigolion wedi'u heithrio rhag talu:
<ul>
<li>mae plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru'n cael y canlynol am ddim:
<ul>
<li>archwiliadau deintyddol GIG sy’n cael eu cynnal yng Nghymru cyn eu pen-blwydd yn 25. Mae angen talu am unrhyw driniaeth olynol o ganlyniad i archwiliad am ddim</li>
<li>profion llygaid GIG i rai dan 16 oed, neu rai 16, 17 a 18 oed ac mewn addysg amser llawn</li>
</ul></li>
</ul></li>
<li>mae pobl dros 60 oed yn derbyn y canlynol am ddim:
<ul>
<li>profion llygaid GIG</li>
<li>archwiliadau deintyddol GIG sy’n cael eu cynnal yng Nghymru. Mae angen talu am unrhyw driniaeth olynol o ganlyniad i archwiliad am ddim</li>
<li>mae unigolion sy'n derbyn budd-daliadau, fel Cymhorthdal Incwm a Chredyd Cynhwysol, wedi'u heithrio rhag talu am driniaeth ddeintyddol a phrofion llygaid GIG a gallant fod yn gymwys am dalebau tuag at sbectol neu lensiau cyffwrdd ac ad-daliadau am dreuliau teithio; mae prawf modd am rai gwasanaethau, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol gofal preswyl a gofal nad yw'n ofal preswyl.</li>
</ul></li>
</ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(c) Gweithio amlasiantaethol</td><td>Dylai dysgwyr wybod mai yn anaml y bydd gwasanaethau'n gweithio ar eu pen eu hunain ac mai cydgynhyrchu, gwasanaethau dan arweiniad dinasyddion a gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau a phroffesiynau er iechyd a llesiant yw rhai o brif nodweddion darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. Yn cynnwys:
<ul>
<li>Gweithio amlasiantaethol: amrediad o wasanaethau o iechyd a/neu ofal cymdeithasol/gofal plant yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb di-dor i unigolion ag anghenion lluosog a chymhleth. Trefnir gwasanaethau lleol o gwmpas anghenion yr unigolyn, eu teulu a'r rhwydwaith cefnogi anffurfiol i ddarparu gofal person-ganolog/plentyn-ganolog ar gyfer yr unigolyn.</li>
<li>Tîm amlddisgyblaethol: grŵp o weithwyr y gallent fod yn aelodau o wahanol ddisgyblaethau neu broffesiynau, ond yn gweithio gyda'i gilydd mewn un tîm, er enghraifft:
<ul>
<li>yn rhan o 'Dechrau'n Deg' mae grŵp o weithwyr gofal sy'n aelodau o ddisgyblaethau/proffesiynau gwahanol, yn cynnwys seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion lleferydd ac iaith, ymwelwyr iechyd a gweithwyr gofal plant – pob un yn darparu gofal penodol i'r plentyn unigol ac i'w rieni neu ofalwyr</li>
<li>gall plentyn neu oedolyn yn yr ysbyty dderbyn gofal gan nyrsys ar y ward, ymgynghorydd, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol a radiograffydd – pob un ohonyn nhw'n gweithio fel rhan o dîm i ddarparu gofal i'r unigolyn.</li>
</ul></li>
<li>Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF: Joint Assessment Family Framework): fframwaith asesu ar gyfer sefydliadau megis Teuluoedd yn Gyntaf, Tîm Iechyd ac Anabledd Plentyn (CHAD: Child Health and Disability Team), Tîm o Amgylch y Teulu (TAF: Team around the Family), yn gweithio gyda theuluoedd sydd islaw'r trothwy ar gyfer ymyriad statudol.</li>
<li>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gwneud i gyrff cyhoeddus gydweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd (cydgysylltu'r gwaith).</li>
</ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(ch) Pwysigrwydd /manteision gweithio amlasiantaethol** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal a chefnogaeth eraill yn cydweithio mewn partneriaeth â'r unigolion, gan ystyried eu hanghenion, dymuniadau a chryfderau i ddarparu gofal person-ganolog/plentyn-ganolog.<br><br>Mae'r ffordd hon o weithio:<br>• yn symleiddio asesiadau ac yn sicrhau nad oes yn rhaid i deuluoedd ac unigolion roi'r un wybodaeth fwy nag unwaith<br>• yn gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn y gofal cywir<br>• yn cydlynu darpariaeth gofal er mwyn sicrhau bod pob angen yn cael ei fodloni ar yr adeg gywir er mwyn darparu gofal effeithiol i'r unigolyn. |
| **(d) Llwybrau gyrfa** | Dylai dysgwyr allu adnabod rolau swyddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, a deall pa wybodaeth, sgiliau a rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y rolau hyn.<br><br>Yn cynnwys:<br>• y sgiliau a'r rhinweddau personol sydd eu hangen<br>• y cymwysterau/hyfforddiant sydd eu hangen<br>• y cymwysterau sydd eu hangen i gael lle ar gwrs hyfforddi<br>• rolau a chyfrifoldebau<br>• cyfleoedd i wneud cynnydd. |

© WJEC CBAC Ltd

| **2.2.2 Iechyd y cyhoedd a hybu iechyd drwy gydol cylchred bywyd** | |
|---|---|
| Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae iechyd y cyhoedd a hybu iechyd yn helpu unigolion i wella a chynnal eu hiechyd a'u llesiant, er mwyn lleihau'r angen am wasanaethau ychwanegol, a thrwy hynny helpu i gynnal system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy. | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** |
| **(a) Iechyd y cyhoedd** | Rhaid i ddysgwyr wybod a deall pwrpas iechyd y cyhoedd a sut mae'n helpu unigolion.<br><br>• Mae iechyd y cyhoedd yn ymwneud â helpu unigolion i gadw'n iach a'u diogelu rhag bygythiadau i'w hiechyd. Mae'r llywodraeth yn dymuno i bawb allu gwneud dewisiadau iachach, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, a lleihau risg ac effaith afiechyd cymaint â phosibl.<br>• Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o GIG Cymru. Mae rhan o'i swyddogaeth yn ymwneud â chymryd camau ataliol a hybu iechyd mewn cymunedau, e.e. Cynllun Gwên, rhoi'r gorau i ysmygu, 10 Cam i Bwysau Iach.<br>• Canllawiau'r llywodraeth mewn perthynas â bwyd, ymarfer corff ac alcohol. |
| **(b) Hybu iechyd, a dulliau hybu iechyd** | Dylai dysgwyr ddeall sut y gall gwahanol ymddygiadau mewn perthynas ag iechyd helpu unigolion i gyflawni eu targedau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwrpas hybu iechyd a strategaethau atal a hybu Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r ffyrdd y gellir cyflawni hyn. Yn cynnwys:<br><br>• galluogi unigolion i gael mwy o reolaeth dros eu hiechyd eu hunain<br>• ymyriadau cymdeithasol ac amgylcheddol a fwriadwyd i fod o fudd i iechyd a llesiant unigolion ac i'w diogelu<br>• mynd i'r afael ag achosion sylfaenol afiechyd, a'u hatal, nid dim ond canolbwyntio ar drin a gwella<br>• materion sy'n berthnasol i hybu iechyd – er enghraifft: bwyta'n iach; ymarfer corff; ysmygu; alcohol; hylendid; rhyw diogel; straen; cyflyrau meddygol, e.e. diabetes, clefyd y galon; disgwyliad oes; ynysu cymdeithasol/bwlio; llygredd amgylcheddol<br>• asiantaethau hybu iechyd – er enghraifft, y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awdurdodau Lleol, gan gynnwys ysgolion, mudiadau elusennol a gwirfoddol cenedlaethol a lleol, e.e. Y Gymdeithas Cynllunio Teulu, Sefydliad Prydeinig y Galon, Sefydliad Maetheg Prydain<br>• y gwahanol fathau o ddeunyddiau a dulliau hybu iechyd sy'n cael eu defnyddio i hysbysu, symbylu a chefnogi unigolion i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant. |

© WJEC CBAC Ltd

| **2.2.3 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol cylchred bywyd** | |
|---|---|
| Mae'r adran hon yn gysylltiedig â chynnwys 2.1.1, er mwyn meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r ffordd y mae'r ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad hefyd yn effeithio ar iechyd a llesiant. Bydd dysgwyr hefyd yn dod yn ymwybodol y gall rhai dewisiadau ffordd o fyw gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant. | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** |
| **(a) Dangosyddion iechyd a llesiant da drwy gydol cylchred bywyd** | Dylai dysgwyr wybod am y mesurau a ddefnyddir fel dangosyddion iechyd da:<br><br>• indecs màs y corff<br>• pwysedd gwaed<br>• cyfradd anterth llif<br>• cyfradd curiad y galon wrth orffwys ac adfer ar ôl ymarfer corff. |
| **(b) Dylanwadau ar iechyd a llesiant da drwy gydol cylchred bywyd** | Dylai ymgeiswyr wybod am y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant da, er enghraifft:<br><br>• maeth, hydradiad a deiet<br>• digon o orffwys a chwsg<br>• gwneud ymarfer corff yn rheolaidd<br>• adnoddau ariannol digonol – incwm; cyflog, budd-daliadau, cynilion<br>• gwaith, addysg a gweithgareddau hamdden sy'n symbylu<br>• dylanwad pobl eraill.<br><br>Er y dylai dysgwyr ganolbwyntio ar fanteision y ffactorau hyn i lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol unigolion drwy gydol cylchred bywyd, dylent fod yn ymwybodol y gall fod effeithiau niweidiol hefyd.<br><br>Dylai ymgeiswyr allu adnabod y ffactorau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw y mae gan bobl reolaeth drostynt a'r ffactorau na allant eu newid o bosibl. |
| **(c) Risgiau i iechyd a llesiant** | Rhaid i ddysgwyr allu adnabod y ffactorau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw y mae gan unigolion reolaeth drostynt, yng ngwahanol gamau bywyd, sy'n peri risg i iechyd a llesiant:<br>• perygl dieithriaid *(stranger danger)*<br>• diogelwch – ffyrdd, parciau chwarae, seddi car, ac ati.<br>• diogelwch yn yr haul/torheulo<br>• diffyg ymarfer corff<br>• gordewdra<br>• camddefnyddio sylweddau:<br>(i) alcohol<br>(ii) cyffuriau anghyfreithlon<br>(iii) meddyginiaeth ar bresgripsiwn<br>(iv) sylweddau seicoweithredol.<br>• ysmygu<br>• ymddygiad rhywiol anniogel<br>• yfed alcohol/cymryd cyffuriau a gyrru.<br><br>Dylai dysgwyr wybod beth yw effaith y ffactorau hyn ar iechyd a llesiant. |

© WJEC CBAC Ltd

## 2.3 Uned 3

**Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif**

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o gymhwyster dwyradd
80 marc

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bedwar maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 28-34.

**Meysydd cynnwys:**

2.3.1 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru
2.3.2 Diogelu
2.3.3 Materion cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
2.3.4 Cefnogi system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yn yr 21ain ganrif

**Trosolwg o'r uned**

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion moesegol sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau yng Nghymru er mwyn darparu a chefnogi system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yn yr 21ain ganrif.

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th colspan="2">2.3.1 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cymdeithas, a'r ddeddfwriaeth sy'n llywio hyn er mwyn hybu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foesegol yng Nghymru.</td></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(a) Beth yw cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall ystyr bob un o'r termau.<br><br>Mae Cydraddoldeb yn cyfeirio at y ffaith bod unigolion yn gyfartal yn nhermau statws, hawliau, neu gyfleoedd. Mae'n ymwneud â sicrhau nad yw unigolion neu grwpiau o unigolion yn cael eu trin yn wahanol neu'n llai ffafriol, ar sail nodwedd warchodedig benodol, h.y. oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.<br><br>Mae amrywiaeth yn ymwneud â derbyn, parchu a deall bod pob unigolyn yn unigryw, gan gydnabod gwahaniaethau unigol a chroesawu a dathlu'r cyfoeth o ddimensiynau amrywiol sydd gan unigolion.<br><br>Ystyrir bod cynhwysiant yn hawl ddynol gyffredinol. Nod cynhwysiant yw croesawu pob unigolyn ni waeth beth yw ei hil, rhywedd, anabledd, anghenion meddygol neu anghenion eraill er mwyn rhoi mynediad a chyfleoedd cyfartal i bawb a chael gwared ar wahaniaethu ac anoddefgarwch (chwalu rhwystrau) ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae cynhwysiant yn galluogi unigolion i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol mewn gweithgareddau pob dydd. Mae'n golygu creu lleoedd y gall pawb eu defnyddio.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall mai nod sylfaenol yr egwyddorion hyn yw atal pob math o wahaniaethu, gan gynnwys rhywedd, anabledd a hil. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod gwahaniaethu yn golygu trin unigolyn yn llai teg neu'n llai ffafriol nag unigolyn arall.</td></tr>
<tr><td>(b) Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant</td><td>Dylai dysgwyr wybod sut y gellir cyflawni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a gallu cymhwyso hyn at amrywiaeth o wahanol leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant:<br><br>• trin unigolion yn deg<br>• creu diwylliant cynhwysol i bob aelod o staff ac unigolion<br>• sicrhau nad yw polisïau, gweithdrefnau na phrosesau'n gwahaniaethu<br>• sicrhau bod yr un mynediad ar gael i unigolion i gymryd rhan lawn yn eu gofal a/neu broses ddysgu<br>• galluogi pob aelod o staff ac unigolion i ddatblygu i'w potensial llawn<br>• rhoi sgiliau i staff ac unigolion allu herio anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn eu hamgylchedd gwaith/astudio</td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(b) Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (parhad)** | • sicrhau na fydd unrhyw ddeunyddiau nac adnoddau yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion na grwpiau<br>• sicrhau bod anghenion mynediad unigolion yn cael eu bodloni<br>• chwalu rhwystrau sy'n creu gwahaniad. |
| **(c) Deddfwriaeth i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | Dylai dysgwyr wybod beth yw prif egwyddorion deddfwriaeth bresennol a gynlluniwyd i amddiffyn unigolion a hybu arfer gwrthwahaniaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.<br>• **Deddf Cydraddoldeb 2010** – mae'r ddeddfwriaeth hon yn amddiffyn pobl sy'n meddu ar un neu fwy o'r naw nodwedd warchodedig benodol rhag gwahaniaethu. Y nodweddion hyn yw oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.<br>• **Deddf Hawliau Dynol 1998** – mae'r ddeddfwriaeth hon yn amlinellu hawliau dynol sylfaenol ac egwyddorion cydraddoldeb. Mae'r Ddeddf yn cwmpasu: Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas ac Ymreolaeth (defnyddir yr acronym 'FREDA' i'w cofio yn Saesneg).<br>• **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** – yn benodol y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid *(DoLS)* sydd â'r nod o helpu pobl na allant gynnal eu hannibyniaeth, eu hurddas na'u hawl i ryddid. Mae'r trefniadau hyn yn helpu unigolion sy'n wynebu risg i gynnal eu hawl i urddas a chydraddoldeb.<br>• **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – y ddeddf ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu – cyfle gwell i bobl gael dweud eu dweud o ran y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu cael. Mae hefyd yn hybu'r cymorth amrywiol sydd ar gael yn y gymuned, i leihau'r angen am gymorth ffurfiol, wedi'i gynllunio.<br>• **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** – y fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol, drwy fabwysiadu dull person-ganolog, adnabod anghenion yn gynnar, rhoi systemau cefnogi a monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.<br>• Codau ymarfer fel y byddant yn cael eu llunio gan gyrff rheoleiddio sy'n nodi'r safonau ymarfer a'r ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant a'u cyflogwyr, e.e. Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) – Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). |

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(ch) Y Gymraeg a diwylliant Cymru</td><td>Bydd angen i ddysgwyr wybod y canlynol:<br><br>• Pwysigrwydd cydnabod a chefnogi’r Gymraeg a diwylliant Cymru<br>• Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol cyfredol ar gyfer y Gymraeg gan gynnwys:<br>  • Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg<br>  Tair nod strategol sy'n perthyn i'r strategaeth hon, sef:<br>    • cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>    • cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg<br>    • creu amodau ffafriol (seilwaith a chyd-destun).<br><br>  • Mwy na geiriau: Fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Ei nod yw adeiladu ar y strategaeth wreiddiol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'n galluogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf, a chael eu grymuso i gymryd rhan weithredol yn eu gofal.<br><br>  • Y Cynnig Rhagweithiol: Pwrpas y fenter hon yw sicrhau bod y Gymraeg yr un mor weladwy â'r Saesneg, gan olygu nad oes yn rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth ofyn am gael gwasanaeth Cymraeg. Mae hyn yn cysylltu â chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg, er enghraifft Fframwaith Strategol y Gymraeg (Mwy na geiriau...) a rôl Comisiynydd y Gymraeg.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

| **2.3.2 Diogelu** | |
|---|---|
| Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd diogelu unigolion sy’n wynebu risg mewn cymdeithas a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig sy'n cefnogi hyn. | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** |
| **(a) Pwrpas diogelu** | Mae angen i ddysgwyr wybod ystyr y term diogelu a pham y gall fod yn angenrheidiol mewn perthynas â niwed, cam-drin (emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol ac esgeuluso) a sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu bodloni.<br><br>Yn gyffredinol, mae angen i ddysgwyr ddeall bod pwrpas deddfwriaeth a pholisïau diogelu yn cynnwys:<br><br>• hybu a chynnal diogelwch unigolion (a gweithwyr gofal)<br>• datblygu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol gan gynnal cyfrinachedd gwybodaeth ar yr un pryd<br>• sicrhau bod gweithdrefnau fetio priodol yn cael eu dilyn wrth recriwtio gweithwyr newydd.<br><br>Dylai fod gan ddysgwyr ymwybyddiaeth o ddarpariaeth diogelu allweddol a nodir mewn deddfwriaeth a pholisïau cyfredol fel:<br><br>• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989<br>• Deddf Hawliau Dynol 1998<br>• Deddf Plant 1989 – mewn perthynas â lles y plentyn<br>• Deddf Plant 2004 – ei nod yw adnabod anghenion ac ymyrryd yn gynnar, a darparu ar gyfer y Fframwaith Asesu ar y Cyd<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) – gan gynnwys o ran recriwtio staff sy’n gweithio gyda phlant ac oedolion sy’n wynebu risg a’r gwiriadau angenrheidiol cyfredol, e.e. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a’r ‘rhestrau’ priodol, e.e. Rhestr 99, rhestr wahardd plant (plant a phobl ifanc) a ‘rhestr wahardd’ oedolion.<br>• Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru<br>• Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015<br>• Deddf Iechyd Meddwl 1983. |

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th colspan="2">2.3.3 Materion cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y gall materion cyfoes yn yr 21ain ganrif effeithio ar ddarparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yng Nghymru. Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin sgiliau dehongli data.</td></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(a) Materion cyfoes</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o amrediad o faterion cyfoes sy'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru, e.e.<br><br>• gordewdra – i gynnwys gordewdra plant<br>• tlodi bwyd<br>• tlodi yn ystod plentyndod<br>• bwlio<br>• Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)<br>• anffurfio organau cenhedlu benywod<br>• camddefnyddio sylweddau a’i effaith ar blant ifanc<br>• plant sy'n derbyn gofal<br>• gofalwyr ifanc<br>• iechyd meddwl/gorbryder<br>• poblogaeth sy'n heneiddio<br>• hunan-niweidio<br>• cynaliadwyedd iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru<br>• ecsbloetio<br>• radicaleiddio<br><br>Bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o dystiolaeth ystadegol o faterion cyfoes yng Nghymru, gan gynnwys:<br><br>• dadansoddi'r dystiolaeth ystadegol honno<br>• esboniad(au) posibl am unrhyw batrymau neu dueddiadau sy’n cael eu hadnabod yn y data<br>• sut mae patrymau iechyd a demograffeg ardal yn dylanwadu ar y gwasanaethau sy’n cael eu darparu.<br><br>Gall ffynonellau data gynnwys:<br>• Rhaglen Data Gofal y GIG<br>• Rhaglen Mesur Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Arolwg Iechyd Cymru.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th colspan="2">2.3.4 Cefnogi system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yn yr 21ain ganrif.</th></tr>
<tr><td colspan="2">Prif ffocws yr adran hon yw i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn anelu at wneud y system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru yn gynaliadwy drwy fabwysiadu dull iechyd cyfannol.</td></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(a) Iechyd, datblygiad a llesiant cyfannol drwy gydol cylchred bywyd</td><td>Dylai dysgwyr ddeall prif amcanion y dull iechyd cyfannol mewn perthynas â bywyd sy'n sail i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.<ul><li>yn hytrach na chanolbwyntio ar afiechyd neu rannau penodol o'r corff, mae'r dull hwn mewn perthynas ag iechyd yn ystyried y person cyfan a sut mae'n rhyngweithio â'i amgylchedd. Mae'n ystyried y cysylltiad rhwng y meddwl, y corff a'r enaid</li><li>unigolion yn derbyn cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain, ac yn defnyddio dewisiadau pob dydd i gymryd rheolaeth o'u hiechyd eu hunain</li></ul>Dylai dysgwr ddeall bod y dull cyfannol mewn perthynas â bywyd yn ategu diffiniad cyfannol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o iechyd – cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn yw iechyd, ac nid absenoldeb clefyd neu wendid yn unig.</td></tr>
<tr><td>(b) Mentrau'r Llywodraeth</td><td>Dylai dysgwyr wybod sut mae deddfwriaeth a mentrau cyfredol yn ceisio cynnal system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yng Nghymru, drwy'r canlynol:<br><br>Gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys pwysigrwydd prif egwyddorion<ul><li>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – y fframwaith cyfreithiol sy'n dwyn cyfraith gwasanaethau cymdeithasol ynghyd ac yn ei moderneiddio:<ul><li>llais a rheolaeth</li><li>atal ac ymyrryd yn gynnar</li><li>llesiant</li><li>cydgynhyrchu.</li></ul></li><li>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – ei nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys:<ul><li>nodau llesiant</li><li>egwyddorion datblygu cynaliadwy</li><li>dyletswydd llesiant.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(b) Mentrau’r Llywodraeth (parhad)</td><td>Gofal iechyd darbodus: llunio GIG Cymru mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth, yn cyfrannu at ganlyniadau gwell ac yn gynaliadwy.
<ul><li>Egwyddorion
<ul><li>sicrhau iechyd a llesiant lle bydd y cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal drwy gydgynhyrchu</li>
<li>gofalu am y rhai â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf gan ddefnyddio'r holl sgiliau ac adnoddau yn effeithiol</li>
<li>gwneud yr hyn sydd ei angen, dim mwy, dim llai, a pheidio â gwneud niwed</li>
<li>lleihau amrywiadau amhriodol drwy ddilyn ymarferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw.</li></ul></li></ul>
Deddfwriaeth a mentrau cyfredol eraill sydd â'r nod o gynnal iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys:
<ul><li>Cyngor a gwybodaeth ar ffordd o fyw, cyfeirio at ymyriadau/gwasanaethau iechyd y cyhoedd, e.e.
<ul><li>Her Iechyd Cymru</li>
<li>Curwch Ffliw.</li></ul></li>
<li>Rhaglenni maeth a gweithgarwch corfforol cyfunol mewn lleoliadau allweddol, e.e.
<ul><li>Cychwyn Iach</li>
<li>Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru</li>
<li>Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd</li>
<li>Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant – Canllawiau arfer gorau</li>
<li>Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig</li>
<li>Rhaglen y Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol</li>
<li>Canllaw Bwyta'n Dda</li>
<li>Newid am Oes</li>
<li>5x60.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

## 2.4 Uned 4

**Hybu a chefnogi iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol**

Asesiad di-arholiad: tua 25 awr
30% o gymhwyster dwyradd
120 marc

Mae'r asesiad di-arholiad yn cynnwys un dasg a osodir gan CBAC, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Gall ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil ar gyfer y dasg heb oruchwyliaeth uniongyrchol, cyn llunio eu hadroddiadau. Dylai ymgeiswyr dreulio tua 25 awr i gyd yn llunio eu hadroddiad ar gyfer yr asesiad di-arholiad, gan gwblhau'r gwaith o dan oruchwyliaeth yn y ganolfan.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 37-41.

**Meysydd cynnwys:**

2.4.1 Sut mae iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol, gofal plant a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (GIG Cymru) wedi gwella iechyd a llesiant y genedl
2.4.2 Sut y gall mathau o ofal helpu unigolion i sicrhau canlyniadau cadarnhaol
2.4.3 Cefnogi hunan-hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd a gwydnwch drwy gydol cylchred bywyd
2.4.4 Gweithgareddau ystyrlon i gefnogi a hybu iechyd, datblygiad a llesiant

**Trosolwg o'r uned**

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn helpu unigolion yng Nghymru i gyflawni iechyd a llesiant.

© WJEC CBAC Ltd

| Uned 4 Asesiad Di-arholiad |
|---|
| **Gweithgaredd i fodloni angen**<br><br>Bydd yr asesiad yn gofyn i bob dysgwr lunio adroddiad sy'n dangos tystiolaeth o'r canlynol ac yn cynnwys tystiolaeth weledol i gefnogi'r gweithgaredd:<br><br>(a) ymchwilio i'r ffordd mae gwahanol fathau o ofal yn bodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd<br><br>(b) dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd<br><br>(c) ymchwilio i weithgareddau ystyrlon i fodloni angen penodol y grŵp targed a ddewiswyd<br><br>(ch) cynllunio a chreu gweithgaredd ystyrlon er mwyn bodloni angen penodol y grŵp targed a ddewiswyd ac sy'n helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch<br><br>(d) dadansoddi a gwerthuso’r dasg.<br><br>Heblaw am eu gwaith ymchwilio, dylai ymgeiswyr gwblhau'r asesiad di-arholiad hwn o dan oruchwyliaeth mewn tua 25 awr. |

© WJEC CBAC Ltd

**2.4.1 Sut mae iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol, gofal plant a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (GIG Cymru) wedi gwella iechyd a llesiant y genedl**

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn astudio data demograffig er mwyn deall effaith gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, a mentrau'r llywodraeth, ar iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(a) Mentrau sy'n anelu at fynd i'r afael ag agweddau ar iechyd a llesiant** | Dylai dysgwyr allu rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, y GIG, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yn cydweithio i geisio gwella iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru drwy gymharu ystadegau lleol a chenedlaethol mewn perthynas â:<br>• newidiadau demograffig yn y boblogaeth, h.y. heneiddio<br>• gordewdra<br>• iechyd meddwl<br>• iechyd rhywiol<br>• tlodi plant.<br>Gallai dysgwyr ddefnyddio Rhaglen Data Gofal y GIG wrth ymchwilio i iechyd gwladol; Rhaglen Mesur Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arolwg Iechyd Cymru.<br>Dylai dysgwyr ystyried y tueddiadau lleol o ran agweddau cymdeithasol ac iechyd ac ymchwilio i fentrau lleol a/neu genedlaethol sydd â'r nod fynd i'r afael â'r duedd a nodwyd, e.e.<br>• poblogaeth sy'n heneiddio – Heneiddio'n Dda yng Nghymru<br>• menter Ffrindiau Dementia<br>• gordewdra:<br>  ◦ Mapiau Iach Cymru<br>  ◦ presgripsiynu cymdeithasol<br>• iechyd meddwl – Amser i Newid<br>• iechyd rhywiol – strategaeth Llesiant am Oes<br>• tlodi plant – Dechrau'n Deg. |
| **(b) Effaith iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant ar gymdeithas ehangach** | Dylai dysgwyr allu dadansoddi effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant sy'n gweithio gydag unigolion yng Nghymru drwy ystyried:<br>• gofalu am a rhoi cymorth i'r boblogaeth sy'n heneiddio<br>• effaith newidiadau demograffig yng Nghymru (gan gynnwys pensiynau ac oedran gweithio)<br>• yr effaith ar ofalwyr anffurfiol<br>• darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan gynnwys y sectorau preifat, statudol a gwirfoddol<br>• ffocws ar gydgynhyrchu<br>Dylai dysgwyr ystyried yr effaith ar unigolion, eu teuluoedd/gofalwyr a chymdeithas ehangach. Dylent werthfawrogi bod effeithiau cysylltiedig yn perthyn i bob her, e.e. gall teuluoedd mwy o faint gynyddu'r pwysau ariannol ar rieni a rhoi mwy o alw ar wasanaethau plant. Fodd bynnag, mae teuluoedd mwy o faint hefyd yn cael budd o rannu cyfrifoldebau gofal plant rhwng aelodau'r teulu ac effaith gadarnhaol galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith ar yr economi. |

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th colspan="2">2.4.2 Sut y gall mathau o ofal helpu unigolion i sicrhau canlyniadau cadarnhaol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r adran hon yn adeiladu ar y wybodaeth am ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant a gafwyd yn Uned 1. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o ofal sydd ar gael o fewn y gwasanaethau a sut mae'r mathau hyn o ofal yn bodloni anghenion unigolion drwy gydol cylchred bywyd.</td></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(a) Mathau o ofal</td><td>Dylai dysgwyr ddeall bod pob math o ofal yn ofal person/plentyn-ganolog a bod yn ymwybodol o'r mathau gwahanol o ofal sydd ar gael i unigolion, gan gynnwys:<br>• gofal a chymorth i blant yn y blynyddoedd cynnar, gan roi cymorth ar gyfer twf a datblygiad, cyfle i chwarae, amddiffyn plant, asesu, atgyfeirio – e.e. crèche, meithrinfeydd, gwarchodwyr plant<br>• gofal a chymorth i blant a phobl ifanc, amddiffyn plant, gofal cyfannol os nad yw plant a phobl ifanc yn gallu byw gyda’u rhieni – gofal maeth, gofal seibiant, gofal plant preswyl<br>• gofal a chymorth i oedolion, gofal personol, cymorth gyda gweithgareddau byw dyddiol fel siopa, coginio/bwydo, hylendid, tasgau yn y tŷ – yn y cartref, gofal dydd; byw â chefnogaeth; lleoli oedolion/cysylltu bywydau; gofal preswyl, gofal seibiant; gofal nyrsio – yn y cartref, mewn cartref<br>• gofal iechyd, gan gynnwys gofal ataliol; gwellhaol/triniaeth – acíwt, cronig; gofal sylfaenol – canolfan iechyd, deintydd, optegydd; gofal eilaidd – ysbyty<br>• ailalluogi – sut mae unigolion yn dysgu/ailddysgu ar ôl afiechyd/anaf – therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, gofal cartref tymor byr<br>• gofal anffurfiol wedi'i ddarparu gan deulu a ffrindiau<br>• gofal diwedd oes – gofal lliniarol, hosbis, yn y cartref.</td></tr>
<tr><td>(b) Bodloni anghenion</td><td>Dylai dysgwyr wybod sut mae'r mathau o wasanaethau gofal a chymorth yn bodloni anghenion gofal gwahanol unigolion drwy gydol cylchred bywyd, gan gynnwys:<br>• anghenion gofal corfforol<br>• anghenion gofal emosiynol<br>• anghenion gofal deallusol<br>• anghenion gofal cymdeithasol<br>• cadw unigolion yn ddiogel<br>• amodau ac amgylchiadau sy'n effeithio ar ofal.<br><br>Rhaid i ddysgwyr wybod:<br>• sut y gall anghenion orgyffwrdd<br>• pa mor bwysig yw hi i unigolyn bod ei holl anghenion yn cael eu hystyried<br>• yr angen/gofyniad i ddilyn dull cyfannol o fynd i'r afael ag anghenion, e.e. diffiniadau o iechyd sy'n anghyson â'i gilydd<br>• sut mae'r anghenion hyn yn amrywio rhwng unigolion ar sail oedran, iechyd, diwylliant a rhywedd.<br><br>Dylai dysgwyr hefyd ystyried sut y gall anghenion ysbrydol unigolyn fod yn bwysicach neu'n llai pwysig iddo nag anghenion eraill.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><th colspan="2">2.4.3 Cefnogi hunan-hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd a gwydnwch drwy gydol cylchred bywyd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae hunan-hunaniaeth yn cael ei ddylanwadu a sut y gellir cefnogi hyn er mwyn sicrhau ymdeimlad o hunan-werth, sicrwydd a gwydnwch drwy gydol cylchred bywyd</td></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>(a) Hunan-hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd a gwydnwch</td><td>Dylai dysgwyr fod yn gallu diffinio pob term a bod yn ymwybodol o'r ffordd maent yn cydberthyn.<br><br>Hunan-hunaniaeth (self-identity) – sut mae unigolyn yn ystyried ei hun. Mae'r canlynol fel arfer yn dylanwadu ar hyn:<br>• canfyddiadau ynghylch ei hun gan gynnwys galluoedd, gwendidau a statws<br>• adborth gan eraill.<br><br>Hunan-werth – yr ymdeimlad o hunan-werth yr unigolyn ei hun neu ei werth fel person.<br><br>Ymdeimlad o sicrwydd – synnwyr seicolegol y bydd popeth yn iawn.<br><br>Mae gwydnwch yn ymwneud â’r gallu i addasu'n llwyddiannus os yw unigolyn yn wynebu gofid, trawma, trasiedi, bygythiadau, neu hyd yn oed ffynonellau sylweddol o straen – fel problemau teuluol ac o fewn perthynas, problemau iechyd difrifol, neu ffactorau sy'n achosi straen yn y gweithle neu'n ariannol. Mae'n golygu ‘bownsio’n ôl’ ar ôl cael profiad anodd.<br><br>Dylai dysgwyr allu dadansoddi'r ffactorau sy'n effeithio ar hunan-hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd a gwydnwch, fel:<br>• oedran<br>• ymddangosiad<br>• rhywedd<br>• diwylliant<br>• datblygiad emosiynol<br>• addysg<br>• perthnasoedd<br>• cyfeiriadedd rhywiol<br>• profiadau bywyd.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffordd y gellir cefnogi unigolion i gyflawni hunan-hunaniaeth gadarnhaol, hunan-werth, ymdeimlad o sicrwydd a gwydnwch, fel:<br>• annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol neu chwaraeon, ymddiddori mewn hobi, gwneud gweithgaredd grŵp, cymryd rhan mewn grŵp trafod<br>• hybu a grymuso annibyniaeth, cydnabod dewisiadau<br>• hybu sgiliau hunangymorth<br>• cydnabod a hybu sgiliau a galluoedd unigolion.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

## 2.4.4 Gweithgareddau ystyrlon i gefnogi a hybu iechyd, datblygiad a llesiant

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwrpas a manteision cael unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon er mwyn hybu a chefnogi iechyd a llesiant. Bydd dysgwyr hefyd yn ymchwilio i addasrwydd gweithgareddau ar wahanol gamau mewn bywyd ac yn meithrin sgiliau i gynllunio a chynnal gweithgaredd.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(a) Pwrpas gweithgareddau ystyrlon i gefnogi a hybu iechyd, datblygiad a llesiant** | Dylai dysgwyr ddeall ei bod yn bosibl mai pwrpas gweithgareddau ystyrlon yw gwella gwydnwch mewn sectorau addysgol, preswyl ac adloniadol ac y gallant fod yn weithgareddau:<br><br>• therapiwtig – i wella neu drin cyflwr, dysgu sgìl newydd neu gynorthwyo datblygiad<br>• creadigol – i wella sgiliau a chynyddu hunan-barch<br>• adloniadol – ysgogi unigolyn er mwyn atal diflastod. |
| **(b) Mathau o weithgareddau** | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wrth ystyried mathau o weithgareddau. Dylai'r gweithgareddau:<br>• helpu unigolion i sicrhau llesiant<br>• galluogi unigolion i yr un cyfle i ddweud eu dweud am y gefnogaeth maen nhw'n ei gael<br>• atal angen rhag datblygu<br><br>Dylai dysgwyr allu adnabod y gwahanol fathau o weithgareddau sy'n gallu bod yn rhan o ofal unigolyn gan gynnwys:<br><br>• gweithgareddau corfforol – nofio, ymarfer corff, dawnsio<br>• gweithgareddau deallusol – gemau cofio, posau, darllen<br>• gweithgareddau emosiynol – peintio, chwarae â dŵr neu dywod<br>• gweithgareddau cymdeithasol – canu, chwarae gemau, drama<br>• gweithgareddau creadigol – celf a chrefft, gwneud jig-so, chwarae offeryn.<br><br>Dylai dysgwyr hefyd fod yn ymwybodol:<br>• bod rhai gweithgareddau'n gallu bod yn weithgareddau unigol a/neu'n weithgareddau grŵp ac y gallant fod yn weithgareddau dan do neu'n weithgareddau awyr agored<br>• bod rhai mathau o weithgareddau'n rhyngberthyn ac yn gallu cefnogi llesiant unigolyn mewn modd cyfannol; er enghraifft gall chwarae offeryn fod yn ddeallusol, emosiynol, creadigol a chymdeithasol<br>• bod rhai mathau o weithgareddau'n berthnasol i bob cam bywyd a bod rhai'n canolbwyntio ar grwpiau oedran penodol |

© WJEC CBAC Ltd

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **(c) Manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon a chreadigol** | Mae angen i ddysgwyr wybod y gall gweithgareddau ystyrlon fod yn fanteisiol i unigolion mewn amrywiaeth o ffyrdd:<br><br>• yn gorfforol – datblygu sgiliau echddygol bras, datblygu neu wella sgiliau echddygol manwl, gwelliant cardiofasgwlar<br>• yn ddeallusol – gwella sgiliau canolbwyntio, datblygu iaith, dysgu sgiliau newydd<br>• yn emosiynol – ymlacio, sicrwydd, pleser, meithrin hunan-barch<br>• yn gymdeithasol – cydweithio ag eraill, meithrin perthnasoedd. |
| **(ch) Cynllunio a chyflawni gweithgareddau ystyrlon a chreadigol** | I gynllunio a chynnal gweithgareddau ystyrlon, dylai fod gan ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth o:<br><br>• anghenion grŵp targed a ddewiswyd<br>• ffyrdd o annog cydgynhyrchu a chyfranogi gweithredol<br>• materion iechyd a diogelwch perthnasol ar gyfer y grŵp targed a'r gweithgaredd dan sylw<br>• sut i:<br>    • ddethol gweithgareddau priodol<br>    • cynllunio a threfnu adnoddau<br>    • gosod nodau/targedau perthnasol<br>    • casglu adborth. |

© WJEC CBAC Ltd

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon i'w gweld isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol

**AA3**
Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau

Mae'r tablau isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer cymwysterau radd unigol a dwyradd yn gyffredinol.

**Gradd Unigol**

| | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 15% | 15% | 10% | 40% |
| **Uned 2** | 20% | 25% | 15% | 60% |
| **Pwysoliad cyffredinol** | **35%** | **40%** | **25%** | **100%** |

**Dwyradd**

| | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 7.5% | 7.5% | 5% | 20% |
| **Uned 2** | 10% | 12.5% | 7.5% | 30% |
| **Uned 3** | 7.5% | 7.5% | 5% | 20% |
| **Uned 4** | 10% | 12.5% | 7.5% | 30% |
| **Pwysoliad cyffredinol** | **35%** | **40%** | **25%** | **100%** |

Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu mewn:

- cwestiwn penodol ym mhob un o'r arholiadau ysgrifenedig sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig
- adran ddadansoddi/gwerthuso pob tasg asesiad di-arholiad.

Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn ystyried defnydd yr ymgeisydd o iaith arbenigol. Mae hefyd yn ystyried sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeisydd.

© WJEC CBAC Ltd

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Mae Uned 2 ac Uned 4 yn asesiad di-arholiad. Rhoddir gwybodaeth am drefniadau'r asesiadau di-arholiad gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Ewch i wefan y CGC, www.jqc.org.uk, am ragor o wybodaeth.

**Tasgau**

Cyflwynir y tasgau i'w hasesu yn Uned 2 ac Uned 4 yn Atodiad B i'r fanyleb hon. Byddant yn aros yr un peth tra bod y fanyleb hon ar waith, fel bod lle i ddysgwyr ganolbwyntio ar faes neu grŵp targed sydd o ddiddordeb penodol iddynt.

Gall grŵp targed Uned 2 ac Uned 4 ddod o unrhyw gam bywyd. Ni ddylai ymgeiswyr sy'n astudio'r cymhwyster dwyradd ganolbwyntio ar grŵp targed â'r un cyflwr yn Uned 2 ac yn Uned 4. Ar ben hynny, er mwyn datblygu ac ehangu ar wybodaeth a dealltwriaeth, argymhellir bod yr ymgeiswyr hyn yn canolbwyntio ar grwpiau targed o gamau bywyd gwahanol ar gyfer Uned 2 ac Uned 4.

**Paratoi ar gyfer Asesiad Di-arholiad**

Gall y tasgau di-arholiad gael eu cwblhau a'u hasesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod wedi cyflwyno'r cynnwys angenrheidiol i ddysgwyr allu cael marciau a roddwyd am bob agwedd ar yr asesiad di-arholiad. Rhaid bod dysgwyr wedi cael cyfle i ddysgu sgiliau a thechnegau, a dylai canolfannau arwain dysgwyr tuag at feysydd ymchwil priodol a sefydlu sgiliau ymchwilio cadarn, i baratoi ar gyfer yr asesiadau.

Cyn dechrau'r cwrs, mae'r athro yn gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Ni ddylai ymgeiswyr ymddwyn mewn ffordd annheg wrth baratoi gwaith ar gyfer y TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Rhaid iddyn nhw ddeall y bydd copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn sydd ganddyn nhw.

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Mae'n ofynnol i bob dysgwr lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw dasgau asesu di-arholiad.

**Yr amser sydd ar gael ar gyfer Asesiad Di-arholiad**

Dylai dysgwyr dreulio tua 10 awr ar Dasg 1 a 15 awr ar Dasg 2 yn Uned 2, a thua 25 awr ar y dasg unigol yn Uned 4. Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir gwneud gwaith ymchwilio ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 y tu allan i'r cyfnod dan oruchwyliaeth, ac ni ddylid ei gofnodi i gyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod. Rhaid i'r holl waith heblaw am y gwaith ymchwilio gael ei gwblhau o dan oruchwyliaeth uniongyrchol ac mae'n cyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod.

Nid oes argymhelliad o ran nifer y geiriau na nifer y tudalennau ar gyfer y tasgau asesu di-arholiad.

© WJEC CBAC Ltd

**Goruchwylio a Monitro Asesiad Di-arholiad**

- Yn ystod y cyfnod ysgrifennu, dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

- Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion y tasgau asesu di-arholiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig.

- Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn sydd angen ei wella. Ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.

- Ar ôl cwblhau'r dasg a'i hasesu'n derfynol, ni chaniatlir gwneud unrhyw newidiadau eraill.

Dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar y dasg asesu di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r log gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio tua 10 awr, 15 awr a 25 awr ar eu tasgau asesu di-arholiad perthnasol ar gyfer Uned 2 ac Uned 4.

**Dilysu**

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad yr ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan ar ôl i'r dystiolaeth (h.y. yr adroddiad a'r dystiolaeth ategol) gael ei chyflwyno.
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd i wneud newidiadau.

**Cyfeiriadau**

Mae'n rhaid cydnabod cyfeiriadau at ffynonellau o wybodaeth mewn tasgau asesu di-arholiad. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio llyfryddiaeth atodol drwy ddefnyddio system gyfeirio fewn-destunol gonfensiynol, neu drwy ddefnyddio troednodiadau.

**Y dystiolaeth i'w chyflwyno**

Rhaid i ganolfannau sicrhau CBAC mai gwaith yr ymgeiswyr dan sylw yw'r dystiolaeth a gyflwynir. Heblaw am weithgareddau ymchwilio, rhaid i'r holl waith gael ei gyflawni dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Rhaid i'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith yr ymgeisydd gwblhau datganiad ei fod/bod yn fodlon mai tystiolaeth yr ymgeisydd dan sylw yw'r hyn a gyflwynwyd.

© WJEC CBAC Ltd

Gradd Unigol a Dwyradd: Uned 2
**Tasg 1:** Adroddiad ar ddarparu gwasanaethau, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro/athrawes a'r ymgeisydd) a gyflwynir yn electronig i CBAC.

**Tasg 2:** Adroddiad ar hybu iechyd sy'n cynnwys tystiolaeth briodol o ymgyrch/gweithgaredd a luniwyd gan yr ymgeisydd, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswrd, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro/athrawes a'r ymgeisydd) a gyflwynir yn electronig i CBAC.

Rhaid i Dasgau 1 a 2 gael eu cyflwyno i CBAC yr un pryd (h.y. i'w hasesu yn yr un gyfres arholi).

Dwyradd: Uned 4
Adroddiad ar weithgareddau ystyrlon i fodloni angen penodol, sy'n cynnwys tystiolaeth briodol o weithgaredd a luniwyd gan yr ymgeisydd, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswrd, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro/athrawes a'r ymgeisydd) a gyflwynir yn electronig i CBAC.

Rhaid llenwi taflenni clawr asesiad di-arholiad ar gyfer pob ymgeisydd, nid dim ond y rhai a ddewisir i'w cymedroli. Mae'r ffurflenni ar gael i'w llwytho i lawr o https://www.dysguiechydagofal.cymru/

© WJEC CBAC Ltd

**Meini prawf asesu ar gyfer Uned 2 ac Uned 4**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 wedi'u crynhoi yn y tablau isod ac mae Atodiad A yn eu dangos yn fanwl.

**Uned 2 Tasg 1: Darparu gwasanaethau**

| Meini Prawf Asesu | | Amcan(ion) asesu | Marciau |
|---|---|---|---|
| (a) | Ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion un o'r grwpiau targed canlynol:<br>• plant<br>• pobl ifanc<br>• oedolion | AA1 ac AA2 | 10 a 10 |
| (b) | Ymchwilio i rolau dau weithiwr proffesiynol allweddol | AA1 ac AA2 | 8 a 10 |
| (c) | Dadansoddi'r dasg | AA3 | 10 |
| | | | **Cyfanswm 48** |

**Uned 2 Tasg 2: Hybu iechyd**

| Meini Prawf Asesu | | Amcan(ion) asesu | Marciau |
|---|---|---|---|
| (a) | Dewis pwnc a grŵp targed | AA2 | 5 |
| (b) | Ymchwilio i'r pwnc a ddewiswyd gan ddefnyddio amrediad o adnoddau | AA1 ac AA2 | 6 a 6 |
| (c) | Asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes | AA2 ac AA3 | 3 a 6 |
| (ch) | Cynllunio a chreu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd | AA1 ac AA2 | 16 ac 16 |
| (d) | Dadansoddi a gwerthuso'r dasg | AA3 | 14 |
| | | | **Cyfanswm 72** |

**Uned 4: Gweithgaredd i fodloni angen**

| Meini Prawf Asesu | | Amcan(ion) asesu | Marciau |
|---|---|---|---|
| (a) | Ymchwilio i'r ffordd mae mathau gwahanol o ofal yn bodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd | AA1 ac AA2 | 10 a 10 |
| (b) | Dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal i'r grŵp targed a ddewiswyd | AA2 ac AA3 | 10 a 10 |
| (c) | Ymchwilio i weithgareddau ystyrlon i fodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd | AA1 ac AA2 | 10 a 10 |
| (ch) | Cynllunio a chreu gweithgaredd ystyrlon er mwyn bodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd sy'n helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth ac ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch | AA1 ac AA2 | 20 ac 20 |
| (d) | Dadansoddi a gwerthuso'r dasg | AA3 | 20 |
| | | | **Cyfanswm 120** |

© WJEC CBAC Ltd

**Marcio**

Gradd Unigol

- Bydd Tasg 1 a Thasg 2 Uned 2 yn cael eu hasesu'n fewnol gan ddefnyddio’r cynlluniau marcio yn Atodiad A, a'u cymedroli'n allanol gan CBAC.

- Rhaid i Dasg 1 a Thasg 2 gael eu cyflwyno i'w cymedroli gyda’i gilydd, yn ystod blwyddyn y dyfarniad.

Dwyradd

- Bydd Tasg 1 a Thasg 2 Uned 2 yn cael eu hasesu'n fewnol gan ddefnyddio’r cynlluniau marcio yn Atodiad A, a'u cymedroli'n allanol gan CBAC.

- Rhaid i Dasg 1 a Thasg 2 gael eu cyflwyno i'w cymedroli gyda’i gilydd.

- Bydd Uned 4 yn cael ei hasesu'n fewnol gan ddefnyddio'r cynllun marcio yn Atodiad A ac yn cael ei chymedroli'n allanol gan CBAC.

**Safoni mewnol a chymedroli**

Pan fo mwy nag un athro mewn canolfan, rhaid i waith gan bob grŵp addysgu gael ei safoni’n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu yn y ganolfan.

**Gridiau asesu ac anodiadau athrawon**

Wrth asesu'r dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer pob asesiad, dylai athrawon astudio bandiau a gridiau marciau'r asesiad di-arholiad yn Atodiad A, sydd wedi'u cynllunio i gyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau, ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyrhaeddiad amrywiol.

Mae’n ofynnol i athrawon gofnodi marciau ar wahân ar gyfer pob adran yn y lleoedd gwag ar y grid marcio, gan nodi cyfanswm y marciau yn y blwch a gwneud sylw crynodol cyffredinol.

Er nad ydynt yn orfodol, mae anodiadau gan athrawon yng nghorff y dystiolaeth ysgrifenedig yn ddefnyddiol iawn er mwyn dangos ble a pham y rhoddwyd y marciau.

Bydd enghreifftiau o asesiadau di-arholiad yn cael eu cyhoeddi gan CBAC er mwyn helpu canolfannau i nodi safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol. Bwriedir i'r deunyddiau hyn gael eu defnyddio gan aseswyr mewnol asesiadau di-arholiad yn unig ac ni ellir eu rhannu ag ymgeiswyr o gwbl.

© WJEC CBAC Ltd

**Cyflwyno marciau a gweinyddu**

Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau gwaith yr asesiad di-arholiad ar-lein erbyn dyddiad penodol ym mis Mai blwyddyn cyflwyno'r gwaith i'w gymedroli. Pan gyflwynir y marciau i CBAC, bydd y system yn nodi sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddewis i'w gymedroli.

- dim ond y dystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer y sampl y dylid ei hanfon yn electronig gan ddefnyddio'r llwyfan ar-lein Surpass
- rhaid i waith pob ymgeisydd arall gael ei gadw yn y ganolfan
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd a'r athro lofnodi'r dudalen glawr

Rhaid dilysu gwaith pob ymgeisydd yn fewnol, nid y sampl yn unig, drwy lofnodi'r daflen glawr.

Mae Llawlyfr Gweinyddu CBAC yn cynnwys manylion pellach am gyflwyno samplau, ac i'w gael o Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

**Adborth y ganolfan**

Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl o'r broses gymedroli ar ffurf adroddiad electronig.

© WJEC CBAC Ltd

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Rhaid cymryd o leiaf 40% o'r asesiad ar ddiwedd y cwrs er mwyn bodloni'r gofyn asesiad terfynol a rhaid i ganlyniadau'r asesiad terfynol gyfrannu at y dyfarniad pwnc.

Ystyr hyn mewn gwirionedd yw bod rhaid sefyll o leiaf un o'r ddwy uned ar gyfer gradd unigol ac o leiaf ddwy o'r pedair uned ar gyfer y ddwyradd fel 'asesiad terfynol'. Gall canolfannau benderfynu pa unedau a ddefnyddir i fodloni'r rheol hon. Fel arall, gellir cymryd pob uned ar ddiwedd y cwrs.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Haf 2020 fydd y cyfle cyntaf i asesu uned 1. Haf 2021 fydd y cyfle cyntaf i asesu unedau 2, 3 a 4 a dyfarniad cyntaf y cymwysterau gradd unigol a dwyradd.

Gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol un waith yn unig. Defnyddir y sgôr marc unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo gradd derfynol gyffredinol (graddau terfynol cyffredinol) y cymhwyster os bydd gofynion asesu terfynol yn cael eu bodloni'n gyntaf; h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 40% o'r asesiad cyffredinol yn y gyfres maen nhw'n cyfnewid ynddi. Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu tuag at y gofyn asesiad terfynol o 40%, yna marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif.

Gellir ailsefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os rhoddwyd cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a bod ymgeisydd am gofrestru'r uned am y trydydd tro, bydd angen i'r ymgeisydd ailgofrestru am yr holl unedau a'r cyfnewid priodol i bob un. Yr enw ar hyn yw 'dechrau o'r newydd'. Wrth ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi cynnig ar bob uned hyd at ddwy waith. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniad unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau'r naill neu'r llall neu'r ddwy uned o Asesiad Di-arholiad yn ystod oes y fanyleb hon.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned a'i fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel rhoi cynnig ar uned. Byddai'r ymgeisydd, fodd bynnag, yn gymwys i fod yn ymgeisydd ailsefyll.

© WJEC CBAC Ltd

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | Teitl | Codau cofrestru | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | | **Cyfrwng Cymraeg** | |
| Uned 1 | Twf, datblygiad a llesiant dynol | Ar-sgrin | 3570UA | Ar-sgrin | 3570NA |
| | | Papur | 3570UB | Papur | 3570NB |
| Uned 2 | Hybu a chynnal iechyd a llesiant | 3570U2 | | 3570N2 | |
| Uned 3 | Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif | Ar-sgrin | 3570UC | Ar-sgrin | 3570NC |
| | | Papur | 3570UD | Papur | 3570ND |
| Uned 4 | Hybu a chefnogi iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol | 3570U4 | | 3570N4 | |
| Cyfnewid TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (gradd unigol) | | 3570QS | | 3570CS | |
| Cyfnewid TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (dwyradd) | | 3570QD | | 3570CD | |

Mae'r rhifyn cyfredol o'n dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

© WJEC CBAC Ltd

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Adroddir y cymhwyster TGAU gradd unigol ar raddfa wyth pwynt o A*-G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig) ac ni fydd dysgwyr yn derbyn tystysgrif.

Adroddir y cymhwyster TGAU dwyradd ar raddfa pymtheg pwynt o A*A*-GG, ac A*A* yw'r radd uchaf. Bydd canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig) ac ni fydd dysgwyr yn derbyn tystysgrif.

Cofnodir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maent yn cyfateb i'r graddau canlynol:

**Gradd Unigol**

| **UNEDAU UNIGOL** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gradd | | UCHAFSWM | A* | A | B | C | D | E | F | G |
| Uned 1 | Arholiad | 100 | 90 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | 30 | 20 |
| Uned 2 | Asesu Di-arholiad | 150 | 135 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 | 45 | 30 |

| **CYMHWYSTER – GRADD UNIGOL Uchafswm y marciau 250** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| UCHAFSWM | A* | A | B | C | D | E | F | G |
| 250 | 225 | 200 | 175 | 150 | 125 | 100 | 75 | 50 |

**Dwyradd**

| **UNEDAU UNIGOL** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gradd | | UCHAFSWM | A* | A | B | C | D | E | F | G |
| Uned 1 | Arholiad | 100 | 90 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | 30 | 20 |
| Uned 2 | Asesu Di-arholiad | 150 | 135 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 | 45 | 30 |
| Uned 3 | Arholiad | 100 | 90 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | 30 | 20 |
| Uned 4 | Asesu Di-arholiad | 150 | 135 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 | 45 | 30 |

| **CYMHWYSTER – DWYRADD Uchafswm y marciau 500** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm | A*A* | A*A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE | EF | FF | FG | GG |
| 500 | 450 | 425 | 400 | 375 | 350 | 325 | 300 | 275 | 250 | 225 | 200 | 175 | 150 | 125 | 100 |

© WJEC CBAC Ltd

# ATODIAD A

## Gridiau marcio asesu di-arholiad ar gyfer Uned 2 ac Uned 4

© WJEC CBAC Ltd

**Gridiau asesu ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 Asesu Di-arholiad**

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd ar gyfer y band yn disgrifio'r lefel perfformiad sy'n ofynnol ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodiadau, gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu gwaith enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir aseswyr bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

**Safoni mewnol**

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

© WJEC CBAC Ltd

**Uned 2**
**Tasg 1: Darparu gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| | **Ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion plant, pobl ifanc neu oedolion. [20 marc]**<br><br>**Dylai ymgeiswyr:**<br><br>Gwneud ymchwil er mwyn nodi a disgrifio gwasanaethau o bob un o'r sectorau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a/neu ofal plant.<br><br>Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn dylent:<br>• nodi a yw'r gwasanaeth<br>  • mewn maes lleol a/neu genedlaethol<br>  • yn rhan o'r sector gofal iechyd, gofal cymdeithasol, neu ofal plant<br>  • yn statudol, yn breifat neu'n wirfoddol<br>• esbonio prif rôl pob un o'r gwasanaethau hyn ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd<br>• dangos sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio<br>• nodi'r ffynonellau gwybodaeth<br>• cyflwyno'r wybodaeth mewn fformat priodol. | |
| **Band** | **AA1:** *Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant* | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol* |
| **4** | **9-10 marc**<br>• Ymchwiliad manwl a pherthnasol, sydd â chysylltiad amlwg â'r cyd-destun, gan ddefnyddio amrediad briodol o ffynonellau<br>• Nodir sectorau a darparwyr yn glir ac yn gywir<br>• Nodwyd amrediad eang o wasanaethau lleol a/neu genedlaethol priodol ac maent wedi cael eu disgrifio'n fanwl. | **9-10 marc**<br>• Mae'r ymchwil yn dangos dealltwriaeth ragorol o'r dasg a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth yn gywir at y cyd-destun<br>• Esboniad rhagorol o brif rôl y gwasanaethau ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Dangosir dealltwriaeth fanwl o'r ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio<br>• Mae'r wybodaeth wedi'i threfnu'n dda iawn ac wedi'i chyflwyno mewn fformat priodol iawn. |

© WJEC CBAC Ltd

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **6-8 marc**<br>• Ymchwiliad perthnasol, sy'n gysylltiedig â'r cyd-destun, gan ddefnyddio amrediad briodol o ffynonellau<br>• Nodir sectorau a darparwyr yn gywir<br>• Nodwyd amrediad o wasanaethau lleol a/neu genedlaethol priodol ac maent wedi cael eu disgrifio'n fanwl. | **6-8 marc**<br>• Mae'r ymchwil yn adlewyrchu dealltwriaeth dda o'r dasg a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth at y cyd-destun<br>• Esboniad da o brif rôl y gwasanaethau ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Dangosir dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio<br>• Mae'r wybodaeth wedi'i threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn fformat priodol. |
| **2** | **3-5 marc**<br>• Ymchwiliad sylfaenol, sydd â chysylltiad cyffredinol â'r cyd-destun, gan ddefnyddio o leiaf ddwy ffynhonnell<br>• Nodir sectorau a darparwyr yn gywir<br>• Mae nifer o wasanaethau lleol a/neu genedlaethol wedi cael eu nodi a'u disgrifio'n fras. | **3-5 marc**<br>• Mae'r ymchwil yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r dasg a chymhwyso gwybodaeth at y cyd-destun i raddau<br>• Esboniad sylfaenol o brif rôl y gwasanaethau ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Dangosir dealltwriaeth sylfaenol o'r ffordd y mae rhai o'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio.<br>• Mae'r wybodaeth yn drefnus/wedi'i chyflwyno'n dda ar y cyfan. |
| **1** | **1-2 farc**<br>• Ymchwil gyfyngedig gan ddefnyddio un ffynhonnell o leiaf<br>• Nodwyd nifer bach o wasanaethau. | **1-2 farc**<br>• Mae'r ymchwil yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r dasg a rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth at y cyd-destun<br>• Prin yw'r esboniad o rôl y gwasanaethau ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Prin yw'r dystiolaeth o drefnu gwybodaeth. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><td>(b)</td><td colspan="2">Ymchwilio i rolau swyddi dau weithiwr proffesiynol allweddol [18 marc]<br><br>Dylai ymgeiswyr:<br><br>Ar gyfer un o'r gwasanaethau maent wedi'u nodi:<ul><li>dewis dau weithiwr proffesiynol allweddol gwahanol ac esbonio eu rolau o ran y grŵp targed a'i anghenion</li><li>esbonio'r sgiliau a'r rhinweddau personol sydd eu hangen ar gyfer y rolau hyn</li><li>nodi cyfleoedd gyrfa yn y rolau hyn</li><li>esbonio sut y gall y gweithwyr proffesiynol a ddewiswyd weithio fel rhan o waith amlasiantaethol.</li></ul></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Noder: ni all ymchwil sy'n ystyried rôl un gweithiwr proffesiynol allweddol yn unig gael marc yn uwch na Band 2 yn AA1 nac AA2.</td></tr>
<tr><td>Band</td><td>AA1: Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant</td><td>AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol</td></tr>
<tr><td>4</td><td>7-8 marc<ul><li>Disgrifiad ardderchog o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar y ddau weithiwr proffesiynol allweddol yn eu rolau swyddi</li><li>Nodi cyfleoedd gyrfa yn y rolau hyn yn gynhwysfawr.</li></ul></td><td>9-10 marc<ul><li>Esboniad manwl, ardderchog o rolau swyddi'r ddau weithiwr proffesiynol allweddol, o ran y grŵp targed a'i anghenion</li><li>Esboniad perthnasol, trylwyr o'r ffordd y gall y ddau weithiwr proffesiynol allweddol gyfrannu at weithio amlasiantaethol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>3</td><td>5-6 marc<ul><li>Disgrifiad da o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar y ddau weithiwr proffesiynol allweddol yn eu rolau swyddi</li><li>Nodi cyfleoedd gyrfa yn y rolau hyn yn glir.</li></ul></td><td>6-8 marc<ul><li>Esboniad da o rolau swyddi'r ddau weithiwr proffesiynol allweddol, o ran y grŵp targed a'i anghenion</li><li>Esboniad clir o'r ffordd y gall y ddau weithiwr proffesiynol allweddol gyfrannu at weithio amlasiantaethol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2</td><td>3-4 marc<ul><li>Disgrifiad sylfaenol o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar y ddau weithiwr proffesiynol allweddol yn eu rolau swyddi</li><li>Nodi cyfleoedd gyrfa yn y rolau hyn yn sylfaenol.</li></ul></td><td>3-5 marc<ul><li>Esboniad sylfaenol o rolau swyddi'r ddau weithiwr proffesiynol allweddol, o ran y grŵp targed</li><li>Esboniad bras o'r ffordd y gall y ddau weithiwr proffesiynol allweddol gyfrannu at weithio amlasiantaethol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>1</td><td>1-2 farc<ul><li>Disgrifiad cyfyngedig o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar y ddau weithiwr proffesiynol allweddol yn eu rolau swyddi</li><li>Nodi cyfleoedd gyrfa yn y naill rôl neu'r llall braidd dim.</li></ul></td><td>1-2 farc<ul><li>Esbonio rolau swyddi'r ddau weithiwr proffesiynol braidd dim</li><li>Esbonio'r ffordd y gall y naill weithiwr proffesiynol allweddol neu'r llall gyfrannu at weithio amlasiantaethol braidd dim.</li></ul></td></tr>
<tr><td></td><td>0 marc<br>Nid yw’r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</td><td>0 marc<br>Nid yw’r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

| | |
|---|---|
| **(c)** | **Dadansoddi'r dasg** **[10 marc]**<br><br>**Dylai ymgeiswyr:**<br><br>Ddadansoddi canfyddiadau eich ymchwiliad mewn perthynas â:<br>• y gwasanaethau sydd ar gael a gweithwyr proffesiynol allweddol<br>• pa un ai ydynt yn bodloni anghenion y grŵp targed ai peidio.<br><br>Mae ansawdd cyfathrebu'r ymgeiswyr yn cael ei asesu yn yr adran hon. |
| **Band** | **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau* |
| **4** | **9-10 marc**<br>• Dadansoddiad rhagorol a manwl o ganfyddiadau'r ymchwiliad<br>• Cyflwynir casgliadau priodol, yng nghyd-destun y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol allweddol a'r gwasanaethau sydd ar gael yn bodloni anghenion y grŵp targed<br>• Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.<br>• Defnyddir amrediad eang o derminoleg arbenigol yn gywir. |
| **3** | **6-8 marc**<br>• Dadansoddiad da o ganfyddiadau'r ymchwiliad<br>• Cyflwynir casgliadau sy'n briodol yn gyffredinol, yng nghyd-destun y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol allweddol a'r gwasanaethau sydd ar gael yn bodloni anghenion y grŵp targed<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan.<br>• Defnyddir terminoleg arbenigol yn gywir. |
| **2** | **3-5 marc**<br>• Dadansoddiad sylfaenol o ganfyddiadau'r ymchwiliad<br>• Cyflwynir rhai casgliadau priodol, yng nghyd-destun y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol allweddol a/neu'r gwasanaethau sydd ar gael yn bodloni anghenion y grŵp targed<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ar y cyfan, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu sy'n gywir yn gyffredinol.<br>• Defnydd sylfaenol o derminoleg arbenigol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>• Dadansoddiad sylfaenol o ganfyddiadau'r ymchwiliad<br>• Tystiolaeth gyfyngedig o gasgliadau perthnasol<br>• Mae rhai gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu, sy'n effeithio ar eglurder y cyfathrebu<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu yn dangos tystiolaeth gyfyngedig o strwythur neu derminoleg arbenigol. |
| | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

**Tasg 2: Hybu iechyd**

| | |
|---|---|
| **(a)** | **Dewis pwnc a grŵp targed** **[5 marc]**<br><br>**Dylai ymgeiswyr roi rhesymau dros eu dewisiadau:**<br>• pwnc<br>• grŵp targed. |
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol* |
| **3** | **4-5 marc**<br>Darparu amrediad priodol, da iawn o resymau, gan roi esboniad clir o'r dewis o bwnc a grŵp targed. |
| **2** | **2-3 marc**<br>Darparu rhesymau da, sy'n briodol ar y cyfan, gan esbonio'r dewis o bwnc a grŵp targed. |
| **1** | **1 marc**<br>Darparu rhesymau sylfaenol, i gefnogi'r dewis o bwnc a/neu grŵp targed. |
| | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

**(b) Ymchwilio i'r pwnc a ddewiswyd gan ddefnyddio amrediad o adnoddau** **[12 marc]**

**Dylai ymgeiswyr:**

- ddisgrifio dylanwadau cadarnhaol a negyddol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd
- disgrifio effeithiau'r pwnc a ddewiswyd ar iechyd a llesiant y grŵp targed
- esbonio sut mae canllawiau/mentrau'r llywodraeth, sy'n benodol i'r pwnc a ddewiswyd, yn anelu at gefnogi iechyd a llesiant.

| Band | **AA1:** *Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant* | **AA2:** Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol |
|---|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>• Defnydd da iawn o wybodaeth berthnasol er mwyn darparu disgrifiad clir o amrediad o ddylanwadau cadarnhaol a negyddol ar iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Defnydd da iawn o amrediad eang o ffynonellau gwybodaeth er mwyn darparu disgrifiad manwl o effeithiau'r pwnc a ddewiswyd ar iechyd a llesiant y grŵp targed. | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ffynonellau gwybodaeth priodol yn effeithiol er mwyn dewis canllawiau/mentrau llywodraeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r grŵp targed<br>• Esboniad manwl, da iawn o'r ffordd y mae'r canllawiau/mentrau llywodraeth hyn yn anelu at gefnogi iechyd a llesiant yng nghyd-destun y grŵp targed. |
| **2** | **3-4 marc**<br>• Defnydd da o wybodaeth er mwyn darparu disgrifiad o amrediad o ddylanwadau cadarnhaol a negyddol ar iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Defnydd da o amrediad o ffynonellau gwybodaeth er mwyn darparu disgrifiad o effeithiau'r pwnc a ddewiswyd ar iechyd a llesiant y grŵp targed. | **3-4 marc**<br>• Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddewis canllawiau/mentrau'r llywodraeth yn berthnasol i'r pwnc a'r grŵp targed ar y cyfan<br>• Esboniad da o'r ffordd y mae'r canllawiau/mentrau llywodraeth hyn yn anelu at gefnogi iechyd a llesiant yng nghyd-destun y grŵp targed. |
| **1** | **1-2 farc**<br>• Defnydd sylfaenol o wybodaeth er mwyn darparu disgrifiad o ddylanwadau ar iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Defnydd sylfaenol o nifer bach o ffynonellau gwybodaeth er mwyn darparu disgrifiad bras o effeithiau'r pwnc a ddewiswyd ar iechyd a llesiant y grŵp targed. | **1-2 farc**<br>• Defnyddio nifer bach o ffynonellau gwybodaeth er mwyn dewis canllawiau/mentrau'r llywodraeth, na fydd rhai ohonynt efallai yn uniongyrchol berthnasol i'r pwnc na'r grŵp targed<br>• Ymdrech sylfaenol i egluro'r ffordd y mae'r canllawiau/mentrau llywodraeth hyn yn anelu at gefnogi iechyd a llesiant yng nghyd-destun y grŵp targed. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

**(c) Asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes** **[9 marc]**

**Dylai ymgeiswyr:**

Asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes gan gyfeirio at:

- nodau'r deunyddiau
- sut maen nhw'n addas i'r grŵp targed
- sut maen nhw ar gael i'r grŵp targed
- ffynonellau o gymorth sydd ar gael i'r grŵp targed.

| Band | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol* | **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau* |
|---|---|---|
| 3 | **3 marc**<br>• Dealltwriaeth dda iawn o nodau amrediad o ddeunyddiau hybu iechyd perthnasol, yng nghyd-destun y pwnc a ddewiswyd.<br>• Esboniad da iawn o'r ffynonellau o gymorth sydd ar gael i'r grŵp targed. | **5-6 marc**<br>• Arddel barn wybodus, resymegol o addasrwydd y deunyddiau hybu iechyd i'r gynulleidfa darged gan gyfeirio'n glir at addasrwydd y cynnwys, yr iaith a'r delweddau a ddefnyddiwyd<br>• Ystyriaeth dda iawn o'r ffordd y mae'r deunyddiau ar gael i'r grŵp targed ac effeithiolrwydd y cyfryngau a ddefnyddir. |
| 2 | **2 farc**<br>• Dealltwriaeth dda o nodau amrediad o ddeunyddiau hybu iechyd perthnasol, yng nghyd-destun y pwnc a ddewiswyd.<br>• Esboniad da o'r ffynonellau o gymorth sydd ar gael i'r grŵp targed. | **3-4 marc**<br>• Arddel barn eithaf gwybodus am addasrwydd y deunyddiau hybu iechyd i'r gynulleidfa darged gan gyfeirio rhywfaint at addasrwydd y cynnwys, yr iaith a'r delweddau a ddefnyddiwyd<br>• Ystyriaeth dda o'r ffordd y mae'r deunyddiau ar gael i'r grŵp targed ac effeithiolrwydd y cyfryngau a ddefnyddir. |
| 1 | **1 marc**<br>• Dealltwriaeth sylfaenol o nodau nifer bach o ddeunyddiau hybu iechyd perthnasol, yng nghyd-destun y pwnc a ddewiswyd yn gyffredinol.<br>• Esboniad bras o rai ffynonellau o gymorth sydd ar gael i'r grŵp targed. | **1-2 farc**<br>• Arddel barn sylfaenol am addasrwydd y deunyddiau hybu iechyd i'r gynulleidfa darged gan gyfeirio braidd dim at addasrwydd y cynnwys, yr iaith na'r delweddau a ddefnyddiwyd<br>• Fawr ddim ystyriaeth o'r ffordd y mae'r deunyddiau ar gael i'r grŵp targed neu effeithiolrwydd y cyfryngau a ddefnyddir. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

**(ch) Cynllunio a chreu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd** **[32 marc]**

**Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:**

- ystyried y dulliau/technegau i'w defnyddio
- dewis adnoddau priodol a'u defnyddio'n ddiogel
- lefel briodol o destun a darluniau
- ystyried y gost
- tystiolaeth weledol o'r deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer yr ymgyrch neu'r gweithgaredd
- tystiolaeth weledol o gyflwyniad y gweithgaredd (os yw'n briodol)
- casglu adborth.

| Band | **AA1:** *Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant* | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol* |
|---|---|---|
| **4** | **13-16 marc**<br>• Dealltwriaeth ardderchog o'r dasg a'r gofynion a fodlonwyd<br>• Mae'r gwaith cynllunio wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae'n rhesymegol, gan ystyried yr adnoddau i'w defnyddio a'r gost<br>• Disgrifiad clir a chryno o ffynonellau priodol o adborth. | **13-16 marc**<br>• Ystyriaeth fanwl o amrediad o ddulliau a thechnegau i'w defnyddio er mwyn creu ymgyrch neu weithgaredd effeithiol yng nghyd-destun y pwnc a ddewiswyd a'r grŵp targed<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, a defnyddio amrediad o sgiliau priodol, er mwyn creu ymgyrch neu weithgaredd o safon sy'n addas i’r pwrpas<br>• Mae'r cynnwys yn gywir ac yn gwbl berthnasol i'r pwnc a'r grŵp targed<br>• Cyflwyniad ardderchog a defnydd o iaith a delweddau sy'n briodol i'r grŵp targed. |
| **3** | **9-12 marc**<br>• Dealltwriaeth dda o'r dasg a'r gofynion i'w bodloni<br>• Mae'r gwaith cynllunio wedi'i strwythuro'n dda ac mae'n rhesymegol ar y cyfan, gan ystyried yr adnoddau i'w defnyddio a'r gost<br>• Disgrifiad da o ffynonellau priodol o adborth. | **9-12 marc**<br>• Ystyriaeth gyffredinol o amrediad o ddulliau a thechnegau i'w defnyddio er mwyn creu ymgyrch neu weithgaredd yng nghyd-destun y pwnc a ddewiswyd a'r grŵp targed<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, a defnyddio amrediad o sgiliau priodol, er mwyn creu ymgyrch neu weithgaredd da sy'n addas i’r pwrpas ar y cyfan<br>• Mae'r cynnwys yn gywir ac yn berthnasol i'r pwnc a'r grŵp targed ar y cyfan<br>• Cyflwyniad da a defnydd o iaith a delweddau sy'n briodol i'r grŵp targed. |

© WJEC CBAC Ltd

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **5-8 marc**<br>• Dealltwriaeth sylfaenol o'r dasg a'r gofynion i'w bodloni.<br>• Mae'r gwaith cynllunio yn dangos tystiolaeth o strwythur, gan ystyried yr adnoddau i'w defnyddio a'r gost<br>• Disgrifiad sylfaenol o ffynonellau o adborth. | **5-8 marc**<br>• Peth ystyriaeth o nifer o ddulliau a thechnegau i'w defnyddio er mwyn creu ymgyrch neu weithgaredd yng nghyd-destun y pwnc a ddewiswyd a/neu'r grŵp targed<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, a defnyddio sgiliau priodol, er mwyn creu ymgyrch neu weithgaredd sylfaenol<br>• Mae'r cynnwys yn gywir ar y cyfan ac yn berthnasol i'r pwnc a/neu'r grŵp targed i ryw raddau<br>• Cyflwyniad sylfaenol a defnydd o iaith sy'n briodol i'r grŵp targed ar y cyfan. |
| **1** | **1-4 marc**<br>• Dealltwriaeth gyfyngedig o'r dasg neu'r gofynion i'w bodloni<br>• Gwaith cynllunio yn dangos fawr ddim tystiolaeth o strwythur<br>• Disgrifiad cyfyngedig o ffynonellau o adborth. | **1-4 marc**<br>• Ystyriaeth gyfyngedig o'r dulliau a/neu'r technegau i'w defnyddio i greu ymgyrch neu weithgaredd<br>• Defnyddio amrediad cyfyngedig o sgiliau, i greu ymgyrch neu weithgaredd syml<br>• Prin y mae'r cynnwys yn berthnasol i'r pwnc a/neu'r grŵp targed<br>• Cyflwyniad a defnydd o iaith syml. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

<table>
<tr><td colspan="2">(d) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg [14 marc]<br><br>Dylai'r ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso eu gwaith o ran:<br>• yr adborth a gafwyd<br>• cryfderau a gwendidau'r ymgyrch neu'r gweithgaredd<br>• effeithiau tymor byr a thymor hir posibl yr ymgyrch neu'r gweithgaredd ar y grŵp targed.<br><br>Mae ansawdd cyfathrebu'r ymgeiswyr yn cael ei asesu yn yr adran hon.</td></tr>
<tr><td>Band</td><td>AA3: Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau</td></tr>
<tr><td>4</td><td>12-14 marc<br>• Dadansoddiad rhagorol, manwl a chywir o'r adborth a gafwyd<br>• Gwerthusiad trylwyr o gryfderau a gwendidau'r ymgyrch neu'r gweithgaredd<br>• Dadansoddiad manwl rhagorol o amrediad o effeithiau tymor byr a thymor hir posibl yr ymgyrch neu'r gweithgaredd ar y grŵp targed<br>• Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir<br>• Defnyddir amrediad eang o derminoleg arbenigol yn gywir.</td></tr>
<tr><td>3</td><td>8-11 marc<br>• Dadansoddiad cywir da o'r adborth a gafwyd<br>• Gwerthusiad clir o gryfderau a gwendidau'r ymgyrch neu'r gweithgaredd<br>• Dadansoddiad da o amrediad o effeithiau tymor byr a thymor hir posibl yr ymgyrch neu'r gweithgaredd ar y grŵp targed<br>• Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda ac yn drefnus, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan<br>• Defnyddir terminoleg arbenigol yn gywir.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>4-7 marc<br>• Dadansoddiad sylfaenol o'r adborth a gafwyd<br>• Gwerthusiad bras o gryfderau a/neu wendidau'r ymgyrch neu'r gweithgaredd<br>• Dadansoddiad sylfaenol o amrediad o effeithiau posibl yr ymgyrch neu'r gweithgaredd ar y grŵp targed<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ar y cyfan, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu sy'n gywir yn gyffredinol<br>• Defnydd sylfaenol o derminoleg arbenigol.</td></tr>
<tr><td>1</td><td>1-3 marc<br>• Dadansoddiad syml o'r adborth a gafwyd<br>• Gwerthusiad cyfyngedig o'r ymgyrch neu'r gweithgaredd, neu ddadansoddiad o'r effeithiau posibl ar y grŵp targed<br>• Mae rhai gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu, sy'n effeithio ar eglurder y cyfathrebu<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu yn dangos tystiolaeth gyfyngedig o strwythur neu derminoleg arbenigol.</td></tr>
<tr><td></td><td>0 marc<br>Nid yw’r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

**Mapio Uned 2 (Tasg 1 a Thasg 2) Asesiad Di-arholiad i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

| Meini prawf asesu | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran | | | Cyfanswm Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | 2.2.1 | 2.2.2 | 2.2.3 | | | | |
| **Tasg 1** | (a) | (a)<br>(b)<br>(c) | | | **20** | 10 | 10 | 0 |
| | (b) | (ch)<br>(d) | | | **18** | 8 | 10 | 0 |
| | (c) | (a)<br>(b)<br>(c)<br>(ch)<br>(d) | | | **10** | | | 10 |
| **Tasg 2** | (a) | | (b) | | **5** | 0 | 5 | 0 |
| | (b) | | (a) | (a)<br>(c) | **12** | 6 | 6 | 0 |
| | (c) | (c) | (a)<br>(b) | | **9** | 0 | 3 | 6 |
| | (ch) | | (b) | (a)<br>(b)<br>(c) | **32** | 16 | 16 | 0 |
| | (d) | (d) | (b) | (a)<br>(b)<br>(c) | **14** | 0 | 0 | 14 |
| | | | | **Cyfanswm y marciau** | **120** | 40 | 50 | 30 |

© WJEC CBAC Ltd

**Uned 4**
**Tasg: Gweithgaredd i fodloni angen**

<table>
<tr><td colspan="3">(a) Ymchwilio i'r ffordd mae mathau gwahanol o ofal yn bodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd [20 marc]<br><br>Dylai ymgeiswyr:<br>• ddisgrifio anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp targed a ddewiswyd<br>• esbonio sut mae'r mathau gwahanol o ofal yn bodloni anghenion a nodwyd<br>• esbonio sut y gellir darparu gofal cyfannol ar gyfer y grŵp targed hwn.</td></tr>
<tr><td>Band</td><td>AA1: Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant</td><td>AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau</td></tr>
<tr><td>4</td><td>9-10 marc<br>• Defnydd trylwyr ac effeithiol o amrediad eang o ffynonellau o wybodaeth er mwyn darparu disgrifiad cynhwysfawr o anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddangos ymwybyddiaeth o amrediad eang o fathau o ofal sy'n berthnasol i'r grŵp targed a ddewiswyd.</td><td>9-10 marc<br>• Esboniad rhagorol o'r ffordd y gall y gwahanol fathau o ofal fynd i'r afael ag anghenion gofal y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Nodi'n glir sut y gall anghenion orgyffwrdd a'r gofyniad i gymryd camau cyfannol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yn llawn<br>• Esboniad trylwyr a manwl o'r ffordd y gall gofal cyfannol gael ei ddarparu ar gyfer y grŵp targed hwn, gan ystyried yn berthnasol ble y gall y gofal gael ei ddarparu.</td></tr>
<tr><td>3</td><td>6-8 marc<br>• Defnydd effeithiol o amrediad o ffynonellau o wybodaeth er mwyn darparu disgrifiad da o anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddangos ymwybyddiaeth o amrediad o fathau o ofal sy'n berthnasol i'r grŵp targed a ddewiswyd.</td><td>6-8 marc<br>• Esboniad da o'r ffordd y gall y gwahanol fathau o ofal fynd i'r afael ag anghenion gofal y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Nodi'n glir ar y cyfan sut y gall anghenion orgyffwrdd a'r gofyniad i gymryd camau cyfannol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yn llawn<br>• Esboniad da o'r ffordd y gall gofal cyfannol gael ei ddarparu ar gyfer y grŵp targed hwn, gan ystyried ble y gall y gofal gael ei ddarparu.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **3-5 marc**<br>• Defnydd sylfaenol o ffynonellau o wybodaeth er mwyn darparu disgrifiad bras o anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddangos ymwybyddiaeth o nifer bach o fathau o ofal sy'n berthnasol i'r grŵp targed a ddewiswyd. | **3-5 marc**<br>• Esboniad bras o'r ffordd y gall y gwahanol fathau o ofal fynd i'r afael ag anghenion gofal y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Peth cydnabyddiaeth y gall anghenion orgyffwrdd neu'r gofyniad i fynd i'r afael ag anghenion yn llawn mewn modd cyfannol<br>• Esboniad bras o'r ffordd y gall gofal cyfannol gael ei ddarparu ar gyfer y grŵp targed hwn, gan ystyried i raddau sylfaenol ble y gall y gofal gael ei ddarparu. |
| **1** | **1-2 farc**<br>• Defnydd cyfyngedig o ffynonellau o wybodaeth er mwyn darparu amlinelliad o rai o anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. | **1-2 farc**<br>• Esboniad cyfyngedig o'r ffordd y gall mathau o ofal fynd i'r afael ag anghenion gofal y grŵp targed a ddewiswyd<br>• Esboniad bras o'r ffordd y gall gofal gael ei ddarparu i'r grŵp hwn. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

**(b) Dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal i'r grŵp targed a ddewiswyd [20 marc]**

**Dylai ymgeiswyr:**

- ddadansoddi data/ystadegau demograffig er mwyn ymchwilio i dueddiadau iechyd a thueddiadau cymdeithasol lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r anghenion/cyflwr penodol a ddewiswyd ganddynt
- ymchwilio i fentrau lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r anghenion/cyflwr penodol a ddewiswyd ganddynt
- ystyried sut mae'r rhain yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth i'r grŵp targed a ddewiswyd.

| Band | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol* | **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau* |
|---|---|---|
| **4** | **9-10 marc**<br>• Gwaith ymchwil ac esboniad manwl, rhagorol o amrediad o fentrau lleol a chenedlaethol perthnasol<br>• Nodi'n glir sut mae'r mentrau lleol a chenedlaethol a nodwyd yn ymwneud ag iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd. | **9-10 marc**<br>• Tystiolaeth o ddadansoddiad trylwyr ac effeithiol o ddata perthnasol er mwyn llywio dealltwriaeth o dueddiadau iechyd lleol a chenedlaethol<br>• Ystyriaeth ardderchog o'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth wedi effeithio ar ddarparu gofal ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer y grŵp targed. |
| **3** | **6-8 marc**<br>• Gwaith ymchwil ac esboniad da o amrediad o fentrau lleol a chenedlaethol perthnasol<br>• Nodi'n gyffredinol glir sut mae'r mentrau lleol a chenedlaethol a nodwyd yn ymwneud ag iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd. | **6-8 marc**<br>• Tystiolaeth o ddadansoddiad effeithiol o ddata perthnasol er mwyn llywio dealltwriaeth o dueddiadau iechyd lleol a chenedlaethol<br>• Ystyriaeth dda o'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth wedi effeithio ar ddarparu gofal ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer y grŵp targed. |
| **2** | **3-5 marc**<br>• Gwaith ymchwil ac esboniad bras o amrediad o fentrau lleol a/neu genedlaethol perthnasol<br>• Nodi i ryw raddau sut mae'r mentrau lleol a/neu genedlaethol a nodwyd yn ymwneud ag iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd. | **3-5 marc**<br>• Tystiolaeth o ddadansoddiad sylfaenol o ddata er mwyn llywio'n rhannol ddealltwriaeth o dueddiadau iechyd lleol a/neu genedlaethol<br>• Ystyriaeth sylfaenol o'r ffordd mae o leiaf ddau o blith: tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth wedi effeithio ar ddarparu gofal i'r grŵp targed. |

© WJEC CBAC Ltd

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1-2 farc**<br>• Ymchwiliad cyfyngedig i fentrau lleol a/neu genedlaethol perthnasol<br>• Nodi braidd dim sut mae'r mentrau lleol a/neu genedlaethol a nodwyd yn ymwneud ag iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd. | **1-2 farc**<br>• Braidd dim dadansoddiad o ddata, gyda thystiolaeth gyfyngedig o'u defnyddio i feithrin dealltwriaeth o dueddiadau<br>• Ystyriaeth gyfyngedig o'r ffordd mae o leiaf un o blith: tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth wedi effeithio ar ddarparu gofal i'r grŵp targed. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

**(c) Ymchwilio i weithgareddau ystyrlon i fodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd** **[20 marc]**

**Dylai ymgeiswyr:**

- ddisgrifio amrediad o fathau gwahanol o weithgareddau
- esbonio pwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn
- esbonio pam y gallai'r gweithgareddau hyn fodloni anghenion y grŵp targed a ddewiswyd.

| Band | **AA1:** *Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant* | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol* |
|---|---|---|
| **4** | **9-10 marc**<br>• Defnydd trylwyr ac effeithiol o amrediad eang o ffynonellau o wybodaeth er mwyn nodi a disgrifio amrediad o wahanol fathau o weithgareddau ystyrlon priodol<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r gwahanol fathau o weithgareddau gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ffordd mae'r rhain yn ymwneud ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | **9-10 marc**<br>• Esboniad cywir a manwl o bwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau ystyrlon a nodwyd a ddefnyddiwyd at bwrpasau therapiwtig, creadigol ac adloniadol<br>• Cymhwyso gwybodaeth yn rhagorol i esbonio'n fanwl sut y gall cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau a nodwyd fod yn ystyrlon i'r grŵp targed o ran ei anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol. |
| **3** | **6-8 marc**<br>• Defnydd effeithiol o amrediad o ffynonellau o wybodaeth er mwyn nodi a disgrifio gwahanol fathau o weithgareddau ystyrlon priodol<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r gwahanol fathau o weithgareddau gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ffordd mae'r rhain yn ymwneud ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | **6-8 marc**<br>• Esboniad da o bwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau ystyrlon a nodwyd a ddefnyddiwyd at bwrpasau therapiwtig, creadigol ac adloniadol<br>• Cymhwyso gwybodaeth yn dda i esbonio sut y gall cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau a nodwyd fod yn ystyrlon i'r grŵp targed o ran ei anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol. |
| **2** | **3-5 marc**<br>• Defnydd sylfaenol o ffynonellau o wybodaeth er mwyn nodi a disgrifio rhai gweithgareddau ystyrlon priodol<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r gwahanol fathau o weithgareddau gan ddangos peth ymwybyddiaeth o'r ffordd mae'r rhain yn ymwneud ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | **3-5 marc**<br>• Esboniad bras o bwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau ystyrlon a nodwyd<br>• Cymhwyso gwybodaeth yn sylfaenol i esbonio sut y gall cymryd rhan yn rhai o'r gweithgareddau a nodwyd fod yn ystyrlon i'r grŵp targed o ran o leiaf ddau o'i anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol. |

© WJEC CBAC Ltd

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1-2 farc**<br>• Defnydd cyfyngedig o ffynonellau o wybodaeth er mwyn nodi a disgrifio gweithgareddau ystyrlon priodol<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r gwahanol fathau o weithgareddau gan ddangos fawr ddim ymwybyddiaeth o'r ffordd mae'r rhain yn ymwneud ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | **1-2 farc**<br>• Amlinelliad o bwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau ystyrlon a nodwyd<br>• Cymhwyso gwybodaeth i raddau cyfyngedig i esbonio sut y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau fod yn ystyrlon i'r grŵp targed. |
| | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

| | | |
|---|---|---|
| **(ch)** | **Cynllunio a chynhyrchu gweithgaredd ystyrlon sy'n:**<br>• **bodloni anghenion penodol y grŵp targed a ddewiswyd**<br>• **helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth ac ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch**<br>**[40 marc]**<br>**Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:**<br>• nod neu nodau'r gweithgaredd<br>• dewis gweithgaredd priodol<br>• sut byddai'n bosibl cydgynhyrchu'r gweithgaredd mewn lleoliad gofal<br>• cynllunio a threfnu adnoddau<br>• ystyriaethau iechyd a diogelwch<br>• y gweithgaredd<br>• casglu adborth am y gweithgaredd. | |
| **Band** | **AA1:** *Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant* | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol* |
| **5** | **17-20 marc**<br>• Dealltwriaeth ardderchog o ofynion y dasg<br>• Dealltwriaeth ardderchog o egwyddorion cydgynhyrchu<br>• Gwaith cynllunio a threfnu trylwyr ac effeithiol, sydd wedi'i strwythuro'n dda iawn ac sy'n rhesymegol, gan ystyried yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael<br>• Ystyriwyd materion iechyd a diogelwch perthnasol yn llawn.<br>• Ystyriwyd amrediad o strategaethau, technegau a dulliau gweithredu er mwyn casglu adborth priodol. | **17-20 marc**<br>• Pennwyd nodau priodol ar gyfer y gweithgaredd, sy'n dangos yn glir ystyriaeth a dealltwriaeth drylwyr o anghenion y grŵp targed<br>• Tystiolaeth glir a chynhwysfawr o sut byddai'n bosibl cydgynhyrchu'r gweithgaredd mewn lleoliad gofal<br>• Ystyriwyd amrediad o ddulliau gweithredu yn llawn er mwyn cyflawni'r nodau a bennwyd, cyn penderfynu ar y gweithgaredd terfynol<br>• Gwneir penderfyniadau clir, hyddysg a chwbl gyfiawn er mwyn cefnogi'r gweithgaredd a ddewiswyd<br>• Tystiolaeth glir a chynhwysfawr o weithgaredd sy'n briodol i'r nodau a bennwyd a'r grŵp targed. |
| **4** | **13-16 marc**<br>• Dealltwriaeth dda o ofynion y dasg<br>• Dealltwriaeth dda o egwyddorion cydgynhyrchu<br>• Gwaith cynllunio a threfnu effeithiol, sydd wedi'i strwythuro'n dda ac sy'n rhesymegol ar y cyfan, gan ystyried yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael<br>• Ystyriwyd materion iechyd a diogelwch perthnasol.<br>• Ystyriwyd amrediad o strategaethau, technegau a dulliau gweithredu er mwyn casglu adborth | **13-16 marc**<br>• Pennwyd nodau priodol ar gyfer y gweithgaredd, sy'n dangos ystyriaeth a dealltwriaeth dda o anghenion y grŵp targed<br>• Tystiolaeth glir o sut byddai'n bosibl cydgynhyrchu'r gweithgaredd mewn lleoliad gofal<br>• Ystyriwyd amrediad o ddulliau gweithredu yn llawn er mwyn cyflawni'r nodau a bennwyd, cyn penderfynu ar y gweithgaredd terfynol<br>• Gwneir penderfyniadau clir a chyfiawn er mwyn cefnogi'r gweithgaredd a ddewiswyd<br>• Tystiolaeth glir o weithgaredd sy'n briodol i'r nodau a bennwyd a'r grŵp targed. |

© WJEC CBAC Ltd

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **9-12 marc**<br>• Dealltwriaeth foddhaol o ofynion y dasg<br>• Dealltwriaeth foddhaol egwyddorion cydgynhyrchu<br>• Gwaith cynllunio a threfnu wedi'i strwythuro'n dda ar y cyfan ac yn ystyried yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ryw raddau<br>• Ystyriwyd rhai materion iechyd a diogelwch<br>• Ystyriwyd rhai strategaethau, technegau a/neu ddulliau gweithredu er mwyn casglu adborth | **9-12 marc**<br>• Pennwyd nodau priodol ar y cyfan ar gyfer y gweithgaredd, sy'n dangos ystyriaeth a dealltwriaeth foddhaol o anghenion y grŵp targed<br>• Tystiolaeth foddhaol o sut byddai'n bosibl cydgynhyrchu'r gweithgaredd mewn lleoliad gofal<br>• Ystyriwyd rhai dulliau gweithredu er mwyn cyflawni'r nodau a bennwyd, cyn penderfynu ar y gweithgaredd terfynol<br>• Rhoddir rhywfaint o gyfiawnhad dros y dewis o weithgaredd<br>• Tystiolaeth foddhaol o weithgaredd sy'n briodol i'r nodau a bennwyd a'r grŵp targed ar y cyfan. |
| **2** | **5-8 marc**<br>• Dealltwriaeth sylfaenol o ofynion y dasg<br>• Dealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion cydgynhyrchu<br>• Gwaith cynllunio a threfnu yn dangos peth tystiolaeth o strwythur, ond prin yw'r dystiolaeth o ystyried yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael<br>• Nodir rhai materion iechyd a diogelwch<br>• Ychydig iawn o dystiolaeth o strategaethau, technegau a/neu ddulliau gweithredu er mwyn casglu adborth | **5-8 marc**<br>• Pennwyd rhai nodau ar gyfer y gweithgaredd, sy'n dangos ystyriaeth a dealltwriaeth sylfaenol o anghenion y grŵp targed<br>• Tystiolaeth o sut byddai'n bosibl cydgynhyrchu'r gweithgaredd mewn lleoliad gofal, sydd ond yn rhannol briodol o bosibl<br>• Ychydig iawn o dystiolaeth o fod wedi ystyried dulliau o gyflawni'r nodau a bennwyd, cyn penderfynu ar y gweithgaredd terfynol<br>• Prin y mae'r dewis o weithgaredd yn cael ei gyfiawnhau<br>• Tystiolaeth o weithgaredd, ond sy'n gallu ond bod yn rhannol briodol i'r nodau a bennwyd a'r grŵp targed. |
| **1** | **1-4 marc**<br>• Dealltwriaeth gyfyngedig o ofynion y dasg<br>• Ychydig neu ddim dealltwriaeth o egwyddorion cydgynhyrchu<br>• Prin yw'r dystiolaeth o waith cynllunio neu drefnu<br>• Prin yw'r ystyriaeth o adborth. | **1-4 marc**<br>• Nid yw'r nodau a bennwyd yn dangos fawr ddim ystyriaeth na dealltwriaeth o anghenion y grŵp targed<br>• Nodwyd un gweithgaredd, gan ddangos tystiolaeth ohono yn y gwaith, er mai prin y gall fod yn berthnasol i'r grŵp targed. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd

**(d) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg. [20 marc]**

**Dylai ymgeiswyr:**

- gwerthuso'r gweithgaredd
- trafod cryfderau a gwendidau'r gwaith o gynllunio a threfnu'r dasg
- asesu i ba raddau mae'r gweithgaredd yn bodloni anghenion y grŵp targed
- gwerthuso'r safbwyntiau neu farn a gasglwyd mewn adborth am y gweithgaredd
- awgrymu ffyrdd o wella'r gweithgaredd er mwyn iddo fodloni anghenion y grŵp targed yn well.

| **Band** | **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau* |
|---|---|
| **5** | **17-20 marc**<br>• Gwerthusiad beirniadol a gwrthrychol o'r gweithgaredd gan gynnwys gwerthusiad clir a manwl o'r adborth a gasglwyd<br>• Trafodaeth drylwyr ac effeithiol o gryfderau a gwendidau cynllunio a threfnu'r dasg<br>• Barn gwbl hyddysg am i ba raddau mae'r gweithgaredd yn bodloni anghenion y grŵp targed, i gyflawni'r canlyniad(au) personol gofynnol<br>• Mae awgrymiadau realistig a phriodol ar gyfer gwella'n cael eu disgrifio'n glir a'u cyfiawnhau'n llawn<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir<br>• Defnyddir amrediad eang o derminoleg arbenigol yn gywir. |
| **4** | **13-16 marc**<br>• Gwerthusiad gwrthrychol o'r gweithgaredd gan gynnwys gwerthusiad clir o'r adborth a gasglwyd<br>• Trafodaeth effeithiol o gryfderau a gwendidau cynllunio a threfnu'r dasg<br>• Barn hyddysg am i ba raddau mae'r gweithgaredd yn bodloni anghenion y grŵp targed, i gyflawni'r canlyniad(au) personol gofynnol<br>• Mae awgrymiadau realistig a phriodol ar gyfer gwella yn cael eu disgrifio a'u cyfiawnhau<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir<br>• Defnyddir amrediad o derminoleg arbenigol yn gywir. |
| **3** | **9-12 marc**<br>• Gwerthusiad gwrthrychol ar y cyfan o'r gweithgaredd gan gynnwys gwerthusiad boddhaol o'r adborth a gasglwyd<br>• Trafodaeth foddhaol o gryfderau a gwendidau cynllunio a threfnu'r dasg<br>• Barn briodol am i ba raddau mae'r gweithgaredd yn bodloni anghenion y grŵp targed, i gyflawni'r canlyniad(au) personol gofynnol<br>• Mae awgrymiadau priodol ar gyfer gwella'n cael eu disgrifio a'u cyfiawnhau<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus ar y cyfan, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan<br>• Defnyddir terminoleg arbenigol yn gywir. |

© WJEC CBAC Ltd

| | |
|---|---|
| **2** | **5-8 marc**<br>• Gwerthusiad sylfaenol o'r gweithgaredd gan gynnwys rhywfaint o werthusiad o'r adborth a gasglwyd<br>• Trafodaeth fras o gryfderau a gwendidau cynllunio a threfnu'r dasg<br>• Peth tystiolaeth o lunio barn am i ba raddau mae'r gweithgaredd yn bodloni anghenion y grŵp targed<br>• Mae awgrymiadau priodol ar y cyfan ar gyfer gwella'n cael eu disgrifio<br>• Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae rhai gwallau o ran gramadeg, atalnodi a sillafu yn effeithio ar ystyr<br>• Defnyddir peth terminoleg arbenigol yn gywir. |
| **1** | **1-4 marc**<br>• Prin yw'r gwerthusiad o'r gweithgaredd.<br>• Trafodaeth gyfyngedig o gryfderau a/neu wendidau cynllunio a threfnu'r dasg<br>• Fawr ddim barn am i ba raddau mae'r gweithgaredd yn bodloni anghenion y grŵp targed<br>• Mae awgrymiadau syml ar gyfer gwella'n cael eu disgrifio yn yr amlinelliad<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu yn dangos defnydd cyfyngedig o strwythur neu derminoleg arbenigol<br>• Mae rhai gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu, sy'n effeithio ar eglurder y cyfathrebu. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. |

**Mapio Uned 4 Asesiad Di-arholiad i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

| **Meini prawf asesu** | **Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)** | | | | **Dyraniad marciau** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adran | | | | Cyfanswm Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | 2.4.1 | 2.4.2 | 2.4.3 | 2.4.4 | | | | |
| (a) | | (a)<br>(b) | | | **20** | 10 | 10 | 0 |
| (b) | (a)<br>(b) | | | | **20** | 0 | 10 | 10 |
| (c) | | | | (a)<br>(b)<br>(c) | **20** | 10 | 10 | 0 |
| (ch) | | | (a) | (a)<br>(b)<br>(c)<br>(ch) | **40** | 20 | 20 | 0 |
| (d) | | (b) | (a) | (c)<br>(ch) | **20** | | | 20 |
| | | | | **Cyfanswm marciau** | **120** | 40 | 50 | 30 |

© WJEC CBAC Ltd

# ATODIAD B

# Tasgau Asesiad Di-arholiad

© WJEC CBAC Ltd

**TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**Uned 2**

**HYBU A CHYNNAL IECHYD**
**A LLESIANT**

**Tasg 1: DARPARU GWASANAETHAU**

**Tasg 2: HYBU IECHYD**

**Tua 25 awr**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Dylech dreulio tua 10 awr ar Dasg 1 a thua 15 awr ar Dasg 2.

Darllenwch y wybodaeth dros y dudalen yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ar ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith digymorth eich hun y byddwch yn ei gyflwyno

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno

Mae mwy o wybodaeth am asesu'r uned hon i'w gweld yn Atodiad A i'r fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd

**Tasg 1: Darparu Gwasanaethau**

Mae'r dasg hon yn ymwneud â darparu gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion plant, pobl ifanc neu oedolion.

Mae'n bwysig bod pawb yng Nghymru yn cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant da. Mae hefyd yn bwysig bod pobl yn cael eu denu i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, a bod llwybrau gyrfa addas ar gael iddyn nhw wrth iddyn nhw feithrin eu sgiliau.

**Eich tasg chi yw ymchwilio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer un grŵp targed a rolau swyddi dau weithiwr proffesiynol allweddol sydd yn ymwneud â bodloni anghenion y grŵp targed.**
**Dylai eich gwaith gael ei gyflwyno ar ffurf adroddiad.**

Bydd angen i chi:

(a) Ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion y grŵp targed a ddewiswyd: [20]
- plant
- pobl ifanc
- oedolion.

Gwneud ymchwil er mwyn nodi a disgrifio gwasanaethau o bob un o'r sectorau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a/neu ofal plant.

Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn dylech:
- nodi a yw'r gwasanaeth
  - mewn ardal leol a/neu genedlaethol
  - yn rhan o'r sector gofal iechyd, gofal cymdeithasol, neu ofal plant
  - yn statudol, yn breifat neu'n wirfoddol
- esbonio prif rôl pob un o'r gwasanaethau hyn ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd
- dangos sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio
- nodi'r ffynonellau gwybodaeth
- cyflwyno'r wybodaeth mewn fformat priodol.

(b) Ymchwilio i rolau swyddi dau weithiwr proffesiynol allweddol. [18]

Ar gyfer un o'r gwasanaethau rydych wedi'u nodi:
- dewis **dau** weithiwr proffesiynol allweddol gwahanol ac esbonio eu rolau o ran y grŵp targed a'i anghenion
- disgrifio'r sgiliau a'r rhinweddau personol sydd eu hangen ar gyfer y rolau hyn
- nodi cyfleoedd gyrfa yn y rolau hyn
- esbonio sut y gall y gweithwyr proffesiynol a ddewiswyd gyfrannu at weithio amlasiantaethol.

(c) Dadansoddi canfyddiadau eich ymchwiliad mewn perthynas â'r canlynol: [10]
- y gwasanaethau sydd ar gael a gweithwyr proffesiynol allweddol
- pa un ai ydynt yn bodloni anghenion y grŵp targed ai peidio.

Bydd ansawdd eich cyfathrebu yn cael ei asesu yn rhan (c).

**Cyfanswm y marciau [48]**

*Dylech dreulio tua 10 awr yn ysgrifennu'r dasg hon, o dan oruchwyliaeth yn yr ysgol/coleg. Nid yw hyn yn cynnwys eich gwaith ymchwil sy'n gallu cael ei gwblhau y tu allan i'r ysgol/coleg.*

© WJEC CBAC Ltd

**Tasg 2: Hybu Iechyd**

Mae’r dasg hon yn ymwneud ag ymgyrch hybu iechyd.

Rydyn ni’n cael ein hannog yn gryf i fod yn gyfrifol am ein hiechyd a'n llesiant ein hunain. Er mwyn gwneud hyn mae angen cyngor a chymorth arnom.

**Eich tasg chi yw cynllunio ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd sy'n galluogi grŵp targed a ddewiswyd i wella ei iechyd a'i lesiant.**
**Dylai eich gwaith gael ei gyflwyno ar ffurf adroddiad.**

Ar gyfer problem iechyd benodol bydd angen i chi:

(a) Rhoi rhesymau dros eich dewis o: [5]
- testun
- grŵp targed.

(b) Ymchwilio i'r pwnc a ddewiswyd gan ddefnyddio amrediad o adnoddau: [12]
Dylech wneud y canlynol:
- disgrifio dylanwadau cadarnhaol a negyddol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd
- disgrifio effeithiau'r testun a ddewiswyd ar iechyd a llesiant y grŵp targed
- esbonio sut mae canllawiau/mentrau'r llywodraeth, sy'n benodol i'r testun a ddewiswyd, yn anelu at gefnogi iechyd a llesiant.

(c) Asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes o ran: [9]
- nodau'r deunyddiau
- sut maen nhw’n addas i'r grŵp targed
- sut maen nhw ar gael i'r grŵp targed
- ffynonellau o gymorth sydd ar gael i'r grŵp targed.

(ch) Cynllunio a chreu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd. [32]
Dylech ddangos tystiolaeth o'r canlynol:
- ystyried y dulliau/technegau i'w defnyddio
- dewis adnoddau priodol a'u defnyddio'n ddiogel
- defnydd priodol o destun a delweddau
- ystyried y gost
- tystiolaeth weledol o'r deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer yr ymgyrch neu'r gweithgaredd
- tystiolaeth weledol o gyflwyniad y gweithgaredd (os yw'n briodol)
- casglu adborth.

(d) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg o ran: [14]
- yr adborth a gafwyd
- cryfderau a gwendidau'r ymgyrch neu'r gweithgaredd
- effeithiau tymor byr a thymor hir posibl yr ymgyrch neu'r gweithgaredd ar y grŵp targed.

Bydd ansawdd eich cyfathrebu yn cael ei asesu yn rhan (d).

**Cyfanswm y marciau** **[72]**

*Dylech dreulio tua 15 awr yn ysgrifennu'r dasg hon, o dan oruchwyliaeth yn yr ysgol/coleg. Nid yw hyn yn cynnwys eich gwaith ymchwil sy'n gallu cael ei gwblhau y tu allan i'r ysgol/coleg.*

© WJEC CBAC Ltd

**TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**Uned 4**

**HYBU A CHEFNOGI IECHYD**
**ER MWYN CYFLAWNI CANLYNIADAU CADARNHAOL**

**GWEITHGAREDD I FODLONI ANGEN**

**Tua 25 awr**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Dylech dreulio tua 25 awr ar y dasg hon

Darllenwch y wybodaeth dros y dudalen yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ar ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith digymorth eich hun y byddwch yn ei gyflwyno

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Bydd angen i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno

Mae mwy o wybodaeth am asesu'r uned hon i'w gweld yn Atodiad A i'r fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd

Mae'r dasg hon yn ymwneud â sut mae'n bosibl bodloni anghenion penodol drwy weithgareddau ystyrlon.

Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn nodwedd allweddol o wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn un o nodweddion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Eich tasg chi yw dewis grŵp targed â chyflwr neu anghenion penodol ac ymchwilio i ddarpariaeth gofal sy'n bodloni anghenion penodol y grŵp targed hwn.**
**Yna mae gofyn i chi lunio gweithgaredd ystyrlon ar gyfer y grŵp targed hwn.**
**Dylai eich gwaith gael ei gyflwyno ar ffurf adroddiad.**

Ar gyfer grŵp targed a ddewiswyd ag anghenion penodol bydd angen i chi:

(a) Ymchwilio i'r ffordd mae gwahanol fathau o ofal yn bodloni anghenion grŵp targed a ddewiswyd, er enghraifft: [20]

- plant sy'n datblygu'n arafach na'r arfer
- unigolion sy'n ei chael hi'n anodd symud
- oedolion hŷn sy'n colli'r cof
- unigolion â chyflwr iechyd penodol.

Dylech wneud y canlynol:

- disgrifio eu hanghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol
- esbonio sut mae'r gwahanol fathau o ofal yn bodloni anghenion a nodwyd
- esbonio sut mae'n bosibl darparu gofal cyfannol ar gyfer y grŵp targed hwn.

(b) Dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd. [20]

Dylech wneud y canlynol:

- ddadansoddi data/ystadegau demograffig er mwyn ymchwilio i dueddiadau iechyd a thueddiadau cymdeithasol lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r anghenion/cyflwr penodol a ddewiswyd gennych
- ymchwilio i fentrau lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r anghenion/cyflwr penodol a ddewiswyd ganddynt
- ystyried sut mae'r rhain yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth i'r grŵp targed a ddewiswyd.

(c) Ymchwilio i weithgareddau ystyrlon i fodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd.

[20]

Dylech wneud y canlynol:

- ddisgrifio amrediad o fathau gwahanol o weithgareddau
- esbonio pwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn
- esbonio pam byddai'r gweithgareddau hyn yn gallu bod yn ystyrlon i'r grŵp targed a ddewiswyd.

© WJEC CBAC Ltd

(ch) Cynllunio a chynhyrchu gweithgaredd ystyrlon sy'n:

- bodloni anghenion penodol y grŵp targed a ddewiswyd
- helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth ac ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch.

[40]

Bydd angen i chi ddangos tystiolaeth o'r canlynol:

- nod neu nodau'r gweithgaredd
- dewis gweithgaredd priodol
- sut byddai'n bosibl cydgynhyrchu'r gweithgaredd mewn lleoliad gofal
- cynllunio a threfnu adnoddau
- ystyriaethau iechyd a diogelwch
- y gweithgaredd
- casglu adborth am y gweithgaredd.

(d) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg. [20]

Dylech wneud y canlynol:

- gwerthuso'r gweithgaredd
- trafod cryfderau a gwendidau'r gwaith o gynllunio a threfnu'r dasg
- asesu i ba raddau mae'r gweithgaredd yn bodloni anghenion y grŵp targed
- gwerthuso'r safbwyntiau neu'r barnau a gasglwyd mewn adborth am y gweithgaredd
- awgrymu ffyrdd o wella'r gweithgaredd er mwyn iddo fodloni anghenion y grŵp targed yn well.

Caiff ansawdd eich cyfathrebu ei asesu yn rhan (d).

**Cyfanswm y marciau** **[120]**

*Dylech dreulio tua 25 awr yn ysgrifennu'r dasg hon, o dan oruchwyliaeth yn yr ysgol/coleg. Nid yw hyn yn cynnwys eich gwaith ymchwil sy'n gallu cael ei gwblhau y tu allan i'r ysgol/coleg.*



© WJEC CBAC Ltd